

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Gwener, 14 Ionawr 2022

Lisa Evans

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus, o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Iau, 20 Ionawr 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**
- 3. Trafodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Dwr Cymru Welsh Water (DCWW) ar gynllunio a lefelau ffosffad (Tudalennau 3 - 4)**
- 4. Gwywiad Coed Ynn - Diweddariad er gwybodaeth (Tudalennau 5 - 20)**
- 5. Gwasanaeth Rheoli Gwastraff (Tudalennau 21 - 38)**
- 6. Meysydd Parcio Talu ac Arddangos (Tudalennau 39 - 62)**
- 7. Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2022 (Tudalennau 63 - 122)**
- 8. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 123 - 138)**
- 9. Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu (Tudalennau 139 - 142)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau
Ffyniannus**

Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Craffu Cymunedau Ffyniannus**DYDDIAD:** 20^{fed} Ionawr 2022**LLEOLIAD:** Ar-lein**TEITL:** Trafodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) ar gynllunio a lefelau ffosffad**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Cyflwyno swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a DCWW**Y RHESWM Y MAE CRAWFU WEDI GOFYN AM** Gofynnodd yr Aelodau ar i swyddogion CNC a DCWW gael eu gwahodd i'r Pwyllgor Craffu.**Y WYBODAETH:**

CEFNDIR: Ym mis Ionawr 2021 rhyddhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyngor cynllunio dros dro ynghylch datblygu yn nalgylch Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru. Yn dilyn monitro cydymffurfiaeth Afon Teifi, a oedd yn gweld methiant ysbeidiol o ran lefelau ffosffad, roedd y cyngor hwn yn sicrhau na fyddid yn caniatáu unrhyw ddatblygiad pellach a oedd â'r potensial i gynyddu lefelau ffosffad yn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol.

Y SEFYLLFA BRESENNOL: Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi cael effaith ganlyniadol sylweddol ledled y sir:

1. Effeithir ar y 3 prif Ganolfan Gwasanaethau Trefol yng Ngheredigion, sef Llanbedr Pont Steffan, Tregaron a Llandysul, a'r aneddiadau cyfagos
2. Rhoddwyd saib ar y Cynllun Datblygu Lleol
3. Nid yw'n bosib cyflenwi'r safleoedd a neilltuwyd yn yr ardal yr effeithir arni (y bwriadwyd i 114 o'r 500 o gartrefi fod yn rhai fforddiadwy)
4. Bu'n rhaid dirymu neu wrthod ceisiadau cynllunio
5. Mae DCWW wedi cadarnhau mai dim ond un Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) sy'n stripio ffosffad yng Nghyngor Sir Ceredigion (Llanddewi Brefi) ac mae cynlluniau heb eu cadarnhau y gall un arall (Tregaron) gael ei gynnwys yn y cyfnod Cynllunio Rheoli Asedau, 2025-2030.
6. Mae gwaith rhagarweiniol ar ddosrannu ffynonellau (gan DCWW ar Afon Gwy) yn dangos bod cyfran ffosffad sylweddol yn dod o amaethyddiaeth yn ogystal ag o Waith Trin Dŵr Gwastraff.

Mewn cyfarfodydd craffu blaenorol, gofynnodd yr aelodau am gael cwrdd â chynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru a DCWW i drafod sefyllfa ffosffad yng Ngheredigion, yn ogystal â materion ynghylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn rhyddhau elifion i ardaloedd afonol eraill CSC (sef harbwr Aberaeron) a'r amserau ymateb ar

Tudalen 4

gyfer ymgynghori gan y gwasanaeth Rheoli Datblygu.
Felly, cysylltwyd â DCWW a Chyfoeth Naturiol Cymru a chytunodd swyddogion perthnasol i'r meysydd pwnc dan sylw fod yn bresennol.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam Na, gan nad yw'r drafodaeth hon yn llunio nac yn datblygu polisi.

**LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

**Crynodeb:
Hirdymor:
Integreiddio:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:**

ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Dim argymhellion ffurfiol; trafodaeth er gwybodaeth yn unig.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Enw Cyswllt: Dr Sarah Groves-Phillips
Teitl: Rheolwr Gwasanaeth Polisi Cynllunio
Dyddiad yr Adroddiad: 13/12/2021
Acronymau: GTDG - Gwaith Trin Dŵr Gwastraff
DCWW - Dŵr Cymru Welsh Water
CNC - Cyfoeth Naturiol Cymru
CGT - Canolfan Gwasanaethau Trefol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council	
ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus
DYDDIAD:	20/01/2022
LLEOLIAD:	Zoom
TEITL:	Gwywiad Coed Ynn - Diweddariad er gwybodaeth
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Cyfleu i'r pwyllgor y cynnydd a wnaed hyd yma gyda rhaglen ar gyfer y dyfodol yn cyflwyno'r hyn a fydd yn digwydd nesaf.
Y RHESWM Y MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	Mae'r pwyllgor Craffu wedi gofyn am ddiweddariad ar y cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Gwywiad Coed Ynn (CGGCY).
CEFNDIR:	<p>Bydd Gwywiad Coed Ynn yn arwain at brinder a gwywiad hyd at 95% o goed ynn yn y DU, ac mae'r onnen i'w gweld dros ardal eang ledled Cymru a Cheredigion. Mae hyn yn cynnwys y tu allan i goetiroedd ar ffurf gwrychoedd a choed unigol ar hyd ffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus eraill ac mewn mannau cyhoeddus. Mae'r onnen, ochr yn ochr â'r dderwen a'r ffawydden, yn un o'r tri phrif fath o goedden perth sydd gennym.</p> <p>Y risg yw bod coed marw a'r rhai sy'n cario'r clefyd yn debygol o achosi perygl o ran iechyd a diogelwch i'r cyhoedd, ynghyd â chael effaith sylweddol ar yr economi, yr amgylchedd a'r tirlun.</p>
LLINELL AMSER: Hanes	<p>1. Drafftio a chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Gwywiad Coed Ynn</p> <ul style="list-style-type: none"> • 05 Rhagfyr 2019 - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus er gwybodaeth, gan dynnu sylw at y risg sylweddol posibl sydd gan wywiad coed ynn; gofyn am gymorth wrth ymgysylltu â deiliaid asedau wrth ddatblgyu Cynllun Gweithredu Gwywiad Coed Ynn a rhoi'r cynllun hwn ar waith wedi hynny. • 03 Mawrth 2021 – Cyflwyno'r Cynllun Gweithredu Gwywiad Coed Ynn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i'w gymeradwyo a sicrhau bod adnoddau, staff a chyllid yn cael eu dynodi ar gyfer ei weithredu a'i gyflenwi'n llwyddiannus. • 16 Mawrth 2021 - Cynllun Gweithredu Gwywiad Coed Ynn i'r Cabinet

Tudalen 6

2. Sefydlu grŵp llywio a phenodi Swyddog Gwywiad Coed Ynn i gydlynu a hyrwyddo'r Cynllun Gweithredu Gwywiad Coed Ynn, ei fonitro gan adolygu'r cynllun yn ôl y gofyn. Bydd uwch swyddogion o'r meysydd gwasanaeth a ganlyn yn cael eu cynrychioli ar y tîm prosiect i roi cymorth a chynghori ar anghenion:

- Swyddog Gwywiad Coed Ynn
- Swyddog Cymorth Busnes Gwywiad Coed Ynn
- Drafftio agenda a phresenoldeb ar y grŵp llywio. Y Grŵp Llywio yn cynnwys:

- Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Priffyrdd
- Rheolwr Gwasanaethau Cynnal a Chadw Priffyrdd
- Ecolegydd Priffyrdd
- Uwch Ecolegydd / Swyddog Bioamrywiaeth
- Rheolwr Cynnal a Chadw Tir
- Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus

- Gofynnir am gynrychiolaeth o'r meysydd gwasanaeth a ganlyn yn ôl y galw:

- Cyfathrebu
- Cyllid
- Caffael
- Cyfreithiol
- Economi ac Adfywio

3. Cynnal arolygon ar feysydd blaenoriaeth uchel fel ysgolion, meysydd chwarae a phrif ffyrdd A a B i ddynodi lleoliad a chyflwr coed ynn.

- Gorffennaf 2021 - Cychwyn ar y gwaith o gynnal arolygon ar sectorau blaenoriaeth uchel
- Medi 2021 - Cwblhau'r gwaith o gynnal arolygon ar feysydd blaenoriaeth uchel
- Rhagfyr 2021 - Cyflenwi data arolwg ysgolion
- Ionawr 2022 - Data arolwg ffyrdd A a B i gael ei gyflenwi

4. Ymgyrch benodi Swyddog Cymorth Prosiect Gwywiad Coed Ynn

-
- Gorffennaf/Awst 2021 - Ymgyrch recriwtio
-
- Medi 2021 - tynnu rhestr fer, cynnal cyfweiliadau a gwiriadau cyn penodi
- 01 Hydref - penodi - Ms Lesley Porter

5. Ymgyrch benodi Swyddog Gwywiad Coed Ynn

- Mehefin-Awst 2021 - Ymgyrch recriwtio
- Hydref 2021 - tynnu rhestr fer, cynnal cyfweiliadau a gwiriadau cyn penodi
- 15 Tachwedd - penodi - Mr Norman Birch

LLINELL AMSER: Y Dyfodol

1. Ceredigion yn ymgymryd â fframwaith contractiwr ar gyfer y gwaith ar Wywiad Coed Ynn

- Ionawr 2022 - Dogfennau fframwaith contractiwr ar y gwaith coed i gael eu cwblhau
- Chwefror 2022 - Digwyddiad ar-lein “Cwrdd â'r Prynwr” ar gyfer darpar gontractwyr
- Ebrill 2022 – Proses dendro'r fframwaith contractiwr ar y gwaith coed i gael ei gwblhau a phenderfynu ar gontractiwr

2. Adolygu data'r arolwg a chynhyrchu cynllun gwaith â blaenoriaeth. Blaenoriaethu'r gwaith ar sail dull sy'n asesu risg.

- Ebrill 2022 - Cychwyn ar y rhaglen waith

3. Parhau i lobïo Llywodraeth Cymru a chyfleoedd ariannu eraill i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â Gwywiad Coed Ynn a dynodi mesurau cost-ffeithiol o arolygu a gwaredu coed wedi'u heintio er mwyn lleihau'r effaith ariannol ar gyllid y Cyngor a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd.

- Mae Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthi'n lobïo ar gymorth ariannu.
- Mae'r opsiynau a ystyrir gan Geredigion yn cynnwys:
 - Prosesu pren ar gyfer biomas
 - Contractiwr yn cadw pren wedi cwmpo yn lle'r costau sy'n gysylltiedig â chwmpo coedGweler Atodiad A am wybodaeth fanylach.

BETH SYDD ANGEN I'R CYNGOR EI WNEUD:

Tudalen 8

1. Datblygu a chynnal parhad o ran ymateb ar draws pob gwasanaeth sy'n debygol o fod mewn cyswllt â'r cyhoedd ynghylch Gwywiad Coed Ynn gan gynnwys:

- Swyddog Coed – Yr Arfordir a Chefn Gwlad
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Diogelu'r Cyhoedd
- Rheoli Cynllunio/Adeiladu
- Parciau a Gerddi

2. Cyflenwi'r cynllun cyfathrebu, rhoi gwybodaeth ac arweiniad i:

- Ffermwyr
 - Coedwigwyr
 - Perchenogion Coetiroedd
 - Tirfeddianwyr eraill
 - Gweithwyr proffesiynol ym maes coed (yn enwedig y rhai nad ydynt yn perthyn i gymdeithas broffesiynol)
 - Staff asiantaethau a'r Llywodraeth
 - Colegau
 - Y Cyhoedd
 - Y Cyfryngau
- Gweler Atodiad B

3. Dadansoddiad o ddata'r arolwg:

- Ebrill 2022-Mawrth 2023 - Blaenoriaethu'r rhaglen waith ar goed sy'n eiddo i Geredigion, yn unol â'r matrices risg coed y cytunwyd arno
- Blaenoriaethu cyhoeddi hysbysiadau adran 154 (Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus) ac adran 23 hysbysiadau Deddf Darpariaethau Amrywiol (sy'n eiddo i'r Cyngor a thir â mynediad cyhoeddus) i dirfeddianwyr preifat yn unol â'r matrices risg coed y cytunwyd arno
- Anfon canllawiau/llythyron cynghori i berchenogion preifat coed risg is, yn unol â'r matrices risg coed y cytunwyd arno

4. Rheoli gweithredu adweithiol i Wywiad Coed Ynn - llythyr cynghori cychwynnol & hysbysiadau adran 154 i dirfeddianwyr (materion ar wahân i rai a godwyd o arolygon)

- Materion a godwyd gan aelodau o'r cyhoedd
- Staff Ceredigion
- Rhanddeiliaid eraill

5. Cynhyrchu a thendro gwaith arolygu ar gyfer 2022-2023

- Cynhyrchu a thendro gwaith arolygu yn unol â'r Cynllun Gweithredu Gwywiad Coed Ynn ar gyfer 2022/2023

Tudalen 9

- Ymchwilio pellach yn ofynnol i bennu ac adolygu'r defnydd o atebion blaengar ar gyfer arolygu (darluniau lloeren, arolygu drwy ddronau ac ati)

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam		Do
	Crynodeb:		
	Hirdymor:	Helpu i warchod manteision coetiroedd ynn yng Ngheredigion gan sicrhau diogelwch ein dinasyddion	
	Integreiddio:	Adeiladu cadernid economaidd ac amgylcheddol tuag at y clefyd hwn a thuag at blâu a chlefydau eraill	
	Cydweithio:	Arwain ac annog tirfeddianwyr, dinasyddion a'r diwydiant i ymgysylltu mewn gwylidwraeth, monitro a gweithredu wrth ymateb i Wywiad Coed Ynn Sicrhau bod gwybodaeth ar y we ynghylch Gwywiad Coed Ynn yng Ngheredigion yn parhau'n gyfredol.	
	Cynnwys:	Cynnal gwylidwraeth dargededig, gwneud gwaith maes i gadarnhau damcaniaethau a gallu diagnostig ar gyfer Gwywiad Coed Ynn yng Ngheredigion. Ymhel â gwyddoniaeth dinasyddion i gynorthwyo i adeiladu ar gapasiti iechyd coed a chynorthwyo i fonitro Gwywiad Coed Ynn.	
	Atal:	Dynodi coed ynn sy'n wydn yn wyneb y clefyd a'u defnyddio ar gyfer 'stoc had' i ailblannu yn y dyfodol.	
ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:			
Diweddariad er gwybodaeth yn unig			
RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:			
Amherthnasol			
Enw Cyswllt:	Phil Jones		

Tudalen 10

Teitl:	Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Priffyrdd
Dyddiad yr Adroddiad:	23/12/2021
Acronymau:	GCY - Gwywiad Coed Ynn CGGCY - Cynllun Gweithredu Gwywiad Coed Ynn HDG - Hawl Dramwy Gyhoeddus LIC - Llywodraeth Cymru CLILC - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru CSSC - Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru
Atodiadau:	Atodiad A - Gwaredu Sgil-gynhyrchion Atodiad B - Cynllun Cyfathrebu Atodiad C - Rhaglen Atodiad D - Adnoddau Ariannol Atodiad E - Trosolwg o'r Gyllideb

Atodiad: A

Gwaredu sgil-gynhyrchion (sglodion coed a/neu bren) o goed â Gwywiad Coed Ynn sy'n eiddo i Gyngor Sir Ceredigion a choed preifat posib y mae Cyngor Sir Ceredigion wedi'u cwmpo.

Dewis 1. Gwerthu sgil-gynhyrchion i'r contractiwr cwmpo coed sy'n gwneud y gwaith

Y contractiwr yn credydu'r cyngor â gwerth y sglodion coed neu bren, neu'r ddau, ar sail £/m³, yn sgil y gwaith o gwmpo neu docio coed â Gwywiad Coed Ynn ar ran Ceredigion.

Mae'r gwerth hwn yn ddibynnol ar naill ai:

1. Amcangyfrif a wnaed gan y swyddog Gwywiad Coed Ynn o faint o sglodion coed a/neu bren a gafwyd yn sgil y gwaith

neu
2. Gonestrwydd y contractiwr wrth fesur/amcangyfrif faint mewn m³.

Nodyn: Wrth i'r rhaglen waith ddod yn rhywbeth rheolaidd dros gyfnod y fframwaith, dylai'r swyddog Gwywiad Coed Ynn ennill elfen o hyfedredd wrth ragweld faint sy'n deillio o ddarnau gwaith gwahanol.

Dewis 2. Cyngor Sir Ceredigion yn rheoli'r sgil-gynhyrchion gan ddefnyddio'r contractiwr cwmpo coed

Ceredigion yn talu £/Tunnell y filltir i'r contractiwr cwmpo coed i gludo sglodion coed neu bren, neu'r ddau, i waith biomas neu brynwr/cyfanwerthwr a all wirio faint a dderbyniodd drwy gyfrwng tocynnau. Mae hyn yn dileu unrhyw broblemau'n ymwneud â mesur neu fwrw amcan ar faint o sgil-gynhyrchion a gafwyd.

Byddai angen i'r Cyngor wahodd tendrau gan weithredwyr biomas neu brynwr/cyfanwerthwr ar gyfer y sgil-gynhyrchion.

Dewis 3A. Cyngor Sir Ceredigion yn rheoli'r sgil-gynhyrchion

Y Cyngor i dalu cyfradd o £/m³/milltir i'r contractiwr i gludo'r sglodion coed a/neu bren i gyfleuster storio'r Cyngor (nid oes cyfleuster wedi'i nodi eto).

Yna, bydd y Cyngor yn gwahodd tendrau gan brynwr sglodion coed a phren ar raddfa ddiwydiannol i brynu'r sgil-gynhyrchion sydd wedi'u storio.

Nodyn: yn dilyn trafodaethau anffurfiol gyda'r diwydiant, mae mwy nag un prynwr sglodion coed a phren ar raddfa ddiwydiannol fawr eisoes wedi dangos diddordeb mewn prynu sglodion coed a/neu bren. Byddai gan y cwmnïau hyn yr adnoddau eisoes i gludo a llwytho logiau eu hunain o gyfleuster storio'r Cyngor. Fodd bynnag,

Tudalen 12

mae'n bosibl y byddai angen i'r Cyngor fuddsoddi yn yr adnoddau a'r peiriannau angenrheidiol i lwytho'r sglodion coed ar gyfer cludo llwythi mawr. Byddai'n rhaid cadw at brotocolau caffael.

Dewis 3B. Cyngor Sir Ceredigion yn rheoli'r sgil-gynhyrchion

Er mwyn cynorthwyo i gyflenwi tanwydd coed domestig, wedi'i olrhain yn lleol, yng Ngheredigion gallem sefydlu fframwaith tendro ar gyfer cyflenwyr coed tân domestig llai i brynu pren fesul m³. Eto, mae'n annhebygol y byddai gan y busnesau llai hyn y gallu i lwytho eu hunain ac mae'n bosib y byddai'n ofynnol i'r cyngor fuddsoddi yn yr adnoddau a'r peiriannau angenrheidiol i lwytho. Byddai'r dewis hwn yn golygu mwy o adnoddau i'r cyngor na Dewis 3A. Fodd bynnag, hwn yw'r dewis sydd â'r nodweddion amgylcheddol/carbon niwtral mwyaf cadarnhaol, gan ei fod yn annog seilwaith tanwydd cynaliadwy yng Ngheredigion.

Y dewis a ffefrir

Mae'n anodd mesur, ar y cam hwn, pa un o'r dewisiadau sy'n rhoi'r gwerth gorau. Bydd Dewis 3A a 3B yn gofyn am fwy o reolaeth ac adnoddau i gyflenwi ac, os nad oes modd cyflawni hyn, yna mae'n ymddangos mai Dewis 1 neu 2 fyddai'r mwyaf priodol.

Mae'n bosib mai dull o ymdrin â sgil-gynhyrchion sy'n cyfuno'r dewisiadau hyn fyddai fwyaf effeithlon h.y. - os ymdrinnir â phren yn ôl Dewis 3B, yna efallai y byddai'n well ymdrin â sglodion coed yn ôl Dewis 1 neu 2.

Felly, mae'r fframwaith/tendr contractiwr wedi'i lunio yn y fath fodd fel y gellid newid y dewisiadau ynghylch a yw'r contractiwr yn cadw neu'n cludo'r sgil-gynhyrchion fel eu bod yn diwallu ein anghenion yn ôl pob rhaglen waith.

Pwyntiau eraill i'w hystyried

Nid yw gweithfeydd biomas Ceredigion ei hun ym Mhenmorfa a Phlascrug yn defnyddio sglodion coed heb eu graddio a/neu eu sychu. Efallai na fyddai cadw'r sglodion coed o fewn y Cyngor, i'w defnyddio gan Geredigion ar gyfer gwresogi, yn hyfyw oni bai y ceid mwy o fuddsoddi er mwyn i'r sgil-gynhyrchion gael eu graddio a'u sychu.

Mewn unrhyw achos, yn dilyn hysbysiad Adran 154, lle bo'r Cyngor yn ymgymryd â gwaith yn niffyg y tirlfeddiannwr, mae cyngor cyfreithiol cyfredol yn nodi:

Dylai'r sgil-gynhyrchion o'r gwaith dan sylw (oni bai y cytunwyd fel arall gyda'r tirlfeddiannwr) gael eu trin fel eiddo'r tirlfeddiannwr drwy gydol y broses, ac ar ei hôl, sy'n golygu na ellir dibynnu ar y sgil-gynhyrchion hyn ym mhob achos.

.

Atodiad B

Cynllun Cyfathrebu Gwywiad Coed Ynn Cyngor Sir Ceredigion

1. Crynodeb Gweithredol

Y bygythiad uniongyrchol sy'n deillio o Wywiad Coed Ynn yw'r risg cynyddol i ddiogelwch y cyhoedd yn sgil coed yn marw ac yn cwmpo neu'n colli canghennau.

2. Y Sefyllfa Farchnata Gyfredol

Rhoddodd y cyfryngau cenedlaethol sylw helaeth i wywiad coed ynn pan ganfuwyd y clefyd gyntaf yn 2012 ond mae'r sylw wedi pylu ar waetha'i effaith fawr a'i effeithiau posibl. Y camau cyntaf wrth wynebu'r broblem yw bod yn ymwybodol ohoni a dod i delerau â hi.

Pa mor ymwybodol yw trigolion/tirfeddianwyr o'r broblem ar hyn o bryd? Mae'n amlwg bod angen mwy o ymwybyddiaeth cyhoeddus.

3. Dadansoddiad o Fygythiadau a chyfleoedd

- Iechyd a Diogelwch, niwed i'r economi ac i enw da, effeithiau amgylcheddol.
- Bygythiad: Trafod gyda thirfeddianwyr anfoddog.
- Cyfathrebu'r Cynllun Gweithredu Gwywiad Coed Ynn er mwyn hysbysu rhanddeiliaid allweddol ynghylch y clefyd a'i risgiau i'w gwasanaethau.
- Gellid defnyddio Gwasanaethau Cwsmeriaid Clic i rannu gwybodaeth/codi ymwybyddiaeth.
- Cydweithio gan wasanaethau ar draws y Cyngor - Diogelu'r Cyhoedd, Prifffyrdd, Cyfathrebu, Cyfreithiol, Ysgolion, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Yr Arfordir a Chefn Gwlad.
- Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid y Gronfa Adfywio Leol – Heddlu Dyfed Powys, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol.

4. Amcanion a Materion

- Cyfleu'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwywiad coed ynn a chyfeirio trigolion at ffyrdd o fynd i'r afael â'r mater. "Nid yw'n fater o fwrw ymlaen fel arfer"
- Creu Fframwaith Gwaith Coed o gontractwyr cymwys
- Ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid mewn gwahanol ffyrdd i sicrhau bod pob sianel gyfathrebu wedi'i defnyddio

5. Strategaeth Farchnata - cynllun cyfathrebu 10 mlynedd

Tymor Byr/Canolig - Cynnig cyngor a chyfeirio. Codi ymwybyddiaeth. Cynnwys gwybodaeth am yr hyn y dylid bod yn ymwybodol ohono a phryd y gellir gwneud gwaith h.y. osgoi'r tymor nythu, ymwybyddiaeth o ystlumod a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn gwlad 1980. Gellir cael gwybodaeth i'r cyhoedd ar: [Clefyd Gwywiad Coed Ynn - Cyngor Sir Ceredigion](#)

Hirdymor - Adnewyddu stoc i warchod yr ecosystem a chynorthwyo i ddal carbon Cyfeirio, Atgoffa.

Tudalen 14

Mae'n bosibl y bydd gofyn cael negeseuon cryfach ynghylch gorfodaeth/dirwyon wrth i amser fynd yn ei flaen.

6. Rhaglen Weithredu

- Ymgyrch gyfathrebu yn cynnwys datganiadau i'r wasg, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, erthygl 'Diwrnod ym Mywyd ...' y Swyddog Gwywiad Coed Ynn pan fydd yn ei swydd, cyfweiliadau gyda'r cyfryngau/radio lleol, clipiau cyfryngau, hysbysebion (y telir amdanynt), gweithgareddau ymgysylltu, newyddlenni i drigolion, taflenni gwybodaeth, cyfathrebu mewnol.
- The Tree Council - Gwywiad Coed Ynn - Canllaw i Berchenogion Coed. Mae The Tree Council yn ymchwilio i gynhyrchu fersiwn Gymraeg ar gais Ceredigion.
- Datblygu ac ychwanegu adran 'Cwestiynau Cyffredin' i'r dudalen wybodaeth ar Wywiad Coed Ynn ar wefan Ceredigion: [Clefyd Gwywiad Coed Ynn - Cyngor Sir Ceredigion](#)

Appendix C - Programme
Ash Dieback Programme 2021 - 2024


ID	Task Name	Start	Finish	Cost	% Complete	2022				2023				2024				2025				
						Qtr 4	Qtr 1	Qtr 2	Qtr 3	Qtr 4	Qtr 1	Qtr 2	Qtr 3	Qtr 4	Qtr 1	Qtr 2	Qtr 3	Qtr 4	Qtr 1	Qtr 2	Qtr 3	
0	Ash Dieback Programme 2122	Mon 03/05/21	Sun 31/03/24	£2,244,300.00	17%																	
1	Ash Dieback Programme	Mon 03/05/21	Sun 31/03/24	£2,244,300.00	17%																	
2	2021/2022	Mon 03/05/21	Thu 31/03/22	£94,300.00	62%																	
3	Staff Cost	Wed 01/09/21	Thu 31/03/22	£35,000.00	50%																	
4	Ash Dieback Officer	Wed 01/09/21	Thu 31/03/22	£17,500.00	50%																	
5	Admin Assistance 1.5 FTE	Wed 01/09/21	Thu 31/03/22	£17,500.00	50%																	
6	Programme	Mon 03/05/21	Tue 01/03/22	£59,300.00	71%																	
7	Survey Tender Process	Mon 03/05/21	Tue 15/06/21	£0.00	100%																	
8	Survey Works	Wed 16/06/21	Thu 20/01/22	£59,300.00	90%																	
9	Survey Analysis	Thu 08/07/21	Thu 20/01/22	£0.00	90%																	
10	21/22 Survey Complete	Fri 21/01/22	Fri 21/01/22	£0.00	0%																	
11	Data review and prioritisat	Mon 24/01/22	Tue 22/02/22	£0.00	0%																	
12	21/22 Works Programme	Wed 23/02/22	Tue 01/03/22	£0.00	0%																	
13	Tree works framework	Mon 01/11/21	Thu 16/12/21	£0.00	0%																	
14	Framework Tender	Sat 01/01/22	Wed 16/02/22	£0.00	0%																	
15	2022/2023	Fri 01/04/22	Fri 31/03/23	£1,045,000.00	0%																	
16	Staff Cost	Fri 01/04/22	Fri 31/03/23	£1,045,000.00	0%																	
17	Ash Dieback Officer	Fri 01/04/22	Fri 31/03/23	£35,000.00	0%																	
18	Admin Assistance 1.5 FTE	Fri 01/04/22	Fri 31/03/23	£35,000.00	0%																	
19	Programme	Tue 01/03/22	Fri 31/03/23	£835,000.00	0%																	
20	Survey Tender Process	Tue 01/03/22	Fri 29/04/22	£0.00	0%																	
21	Survey Works	Mon 02/05/22	Thu 30/06/22	£135,000.00	0%																	
22	Survey Analysis	Fri 01/07/22	Tue 02/08/22	£0.00	0%																	
23	22/23 Survey Complete	Wed 03/08/22	Wed 03/08/22	£0.00	0%																	
24	Data review and prioritisat	Wed 03/08/22	Thu 01/09/22	£0.00	0%																	
25	22/23 Works Programm	Fri 02/09/22	Fri 02/09/22	£0.00	0%																	
26	Pollarding / Felling	Mon 12/09/22	Fri 31/03/23	£550,000.00	0%																	
27	Replanting	Mon 12/09/22	Fri 31/03/23	£150,000.00	0%																	
28	2023/2024	Wed 01/03/23	Sun 31/03/24	£1,105,000.00	0%																	
29	Staff Cost	Sat 01/04/23	Sun 31/03/24	£70,000.00	0%																	
30	Ash Dieback Officer	Sat 01/04/23	Sun 31/03/24	£35,000.00	0%																	
31	Admin Assistance 1.5 FTE	Sat 01/04/23	Sun 31/03/24	£35,000.00	0%																	
32	Programme	Wed 01/03/23	Mon 25/03/24	£1,035,000.00	0%																	
33	Survey Tender Process	Wed 01/03/23	Tue 02/05/23	£0.00	0%																	
34	Survey Works	Wed 03/05/23	Mon 03/07/23	£75,000.00	0%																	
35	Survey Analysis	Tue 04/07/23	Thu 03/08/23	£0.00	0%																	

Tudalen 15

Project: Ash Dieback Programm Date: Tue 21/12/21	Task		Inactive Milestone		Start-only		Path Driving Predecessor Summary Task
	Split		Inactive Summary		Finish-only		Path Driving Predecessor Normal Task
	Milestone		Manual Task		External Tasks		Progress
	Summary		Duration-only		External Milestone		Manual Progress
	Project Summary		Manual Summary Rollup		Deadline		
	Inactive Task		Manual Summary		Path Driving Predecessor Milestone Task		

Appendix C - Programme
Ash Dieback Programme 2021 - 2024

ID	Task Name	Start	Finish	Cost	% Complete	2022				2023				2024				2025					
						Qtr 4	Qtr 1	Qtr 2	Qtr 3	Qtr 4	Qtr 1	Qtr 2	Qtr 3	Qtr 4	Qtr 1	Qtr 2	Qtr 3	Qtr 4	Qtr 1	Qtr 2	Qtr 3		
36	22/23 Survey Complete	Thu 03/08/23	Thu 03/08/23	£0.00	0%																		
37	Data review and prioritisation	Fri 04/08/23	Mon 04/09/23	£0.00	0%																		
38	22/23 Works Programme	Tue 05/09/23	Tue 05/09/23	£0.00	0%																		
39	Pollarding / Felling	Tue 05/09/23	Mon 25/03/24	£750,000.00	0%																		
40	Replanting	Tue 05/09/23	Mon 25/03/24	£210,000.00	0%																		



Project: Ash Dieback Programm Date: Tue 21/12/21	Task		Inactive Milestone		Start-only		Path Driving Predecessor Summary Task	
	Split		Inactive Summary		Finish-only		Path Driving Predecessor Normal Task	
	Milestone		Manual Task		External Tasks		Progress	
	Summary		Duration-only		External Milestone		Manual Progress	
	Project Summary		Manual Summary Rollup		Deadline			
	Inactive Task		Manual Summary		Path Driving Predecessor Milestone Task			

Appendix D - Financial Resources

ID	Task Name	Start	Finish	Resource Names	Cost	Details	2022				2023				2024				2025
							Qtr 1	Qtr 2	Qtr 3	Qtr 4	Qtr 1	Qtr 2	Qtr 3	Qtr 4	Qtr 1	Qtr 2	Qtr 3	Qtr 4	Qtr 1
0	Ash Dieback Programme 2122	Mon 03/05/21	Sun 31/03/24	Budget	£2,244,300.00	Work													
	<i>Budget</i>	<i>NA</i>	<i>NA</i>	<i>Budget</i>		Cost	£4,154.78	£29,994...	£40,126...	£20,02...	£187,29...	£125,51...	£366,09...	£366,0...	£90,795...	£144,99...	£447,84...	£421,36...	
1	Ash Dieback Programme	Mon 03/05/21	Sun 31/03/24		£2,244,300.00	Work													
						Cost	£4,154.78	£29,994...	£40,126...	£20,02...	£187,29...	£125,51...	£366,09...	£366,0...	£90,795...	£144,99...	£447,84...	£421,36...	
2	2021/2022	Mon 03/05/21	Thu 31/03/22		£94,300.00	Work													
						Cost	£4,154.78	£29,994...	£40,126...	£20,02...									
3	Staff Cost	Wed 01/09/21	Thu 31/03/22		£35,000.00	Work													
						Cost		£5,065.78	£15,197...	£14,73...									
4	Ash Dieback Officer	Wed 01/09/21	Thu 31/03/22		£17,500.00	Work													
						Cost		£2,532.89	£7,598.68	£7,368...									
5	Admin Assistance 1.5	Wed 01/09/21	Thu 31/03/22		£17,500.00	Work													
						Cost		£2,532.89	£7,598.68	£7,368...									
6	Programme	Mon 03/05/21	Tue 01/03/22		£59,300.00	Work													
						Cost	£4,154.78	£24,928...	£24,928...	£5,287...									
7	Survey Tender Process	Mon 03/05/21	Tue 15/06/21		£0.00	Work													
						Cost	£0.00												
8	Survey Works	Wed 16/06/21	Thu 20/01/22		£59,300.00	Work													
						Cost	£4,154.78	£24,928...	£24,928...	£5,287...									
9	Survey Analysis	Thu 08/07/21	Thu 20/01/22		£0.00	Work													
						Cost													
10	21/22 Survey Complet	Fri 21/01/22	Fri 21/01/22		£0.00	Work													
						Cost													
11	Data review and prioritisation	Mon 24/01/22	Tue 22/02/22		£0.00	Work													
						Cost													
12	21/22 Works Program	Wed 23/02/22	Tue 01/03/22		£0.00	Work													
						Cost													
13	Tree works framework	Mon 01/11/21	Thu 16/12/21		£0.00	Work													
						Cost													
14	Framework Tender	Sat 01/01/22	Wed 16/02/22		£0.00	Work													
						Cost													
15	2022/2023	Fri 01/04/22	Fri 31/03/23		£1,045,000.00	Work													
						Cost					£187,29...	£125,51...	£366,09...	£366,0...					
16	Staff Cost	Fri 01/04/22	Fri 31/03/23		£1,045,000.00	Work													
						Cost					£187,29...	£125,51...	£366,09...	£366,0...					
17	Ash Dieback Officer	Fri 01/04/22	Fri 31/03/23		£35,000.00	Work													
						Cost					£8,716.48	£8,850.57	£8,716.48	£8,716...					
18	Admin Assistance 1.5	Fri 01/04/22	Fri 31/03/23		£35,000.00	Work													
						Cost					£8,716.48	£8,850.57	£8,716.48	£8,716...					
19	Programme	Tue 01/03/22	Fri 31/03/23		£835,000.00	Work													
						Cost					£135,00...	£72,413...	£313,79...	£313,7...					
20	Survey Tender Proc	Tue 01/03/22	Fri 29/04/22		£0.00	Work													
						Cost													
21	Survey Works	Mon 02/05/22	Thu 30/06/22		£135,000.00	Work													
						Cost					£135,00...								
22	Survey Analysis	Fri 01/07/22	Tue 02/08/22		£0.00	Work													
						Cost													
23	22/23 Survey Comp	Wed 03/08/22	Wed 03/08/22		£0.00	Work													
						Cost													

Tudalen 17

Appendix D - Financial Resources


ID	Task Name	Start	Finish	Resource Names	Cost	Details	2022				2023				2024				2025	
							Qtr 1	Qtr 2	Qtr 3	Qtr 4	Qtr 1	Qtr 2	Qtr 3	Qtr 4	Qtr 1	Qtr 2	Qtr 3	Qtr 4	Qtr 1	
24	Data review and prioritisation	Wed 03/08/22	Thu 01/09/22		£0.00	Work														
						Cost														
25	22/23 Works Progr	Fri 02/09/22	Fri 02/09/22		£0.00	Work														
						Cost														
26	Pollarding / Felling	Mon 12/09/22	Fri 31/03/23		£550,000.00	Work														
						Cost						£56,896...	£246,55...	£246,5...						
27	Replanting	Mon 12/09/22	Fri 31/03/23		£150,000.00	Work														
						Cost						£15,517...	£67,241...	£67,24...						
28	2023/2024	Wed 01/03/23	Sun 31/03/24		£1,105,000.00	Work														
						Cost														
29	Staff Cost	Sat 01/04/23	Sun 31/03/24		£70,000.00	Work														
						Cost														
30	Ash Dieback Officer	Sat 01/04/23	Sun 31/03/24		£35,000.00	Work														
						Cost														
31	Admin Assistance 1.5 I	Sat 01/04/23	Sun 31/03/24		£35,000.00	Work														
						Cost														
32	Programme	Wed 01/03/23	Mon 25/03/24		£1,035,000.00	Work														
						Cost														
33	Survey Tender Process	Wed 01/03/23	Tue 02/05/23		£0.00	Work														
						Cost														
34	Survey Works	Wed 03/05/23	Mon 03/07/23		£75,000.00	Work														
						Cost														
35	Survey Analysis	Tue 04/07/23	Thu 03/08/23		£0.00	Work														
						Cost														
36	22/23 Survey Complet	Thu 03/08/23	Thu 03/08/23		£0.00	Work														
						Cost														
37	Data review and prioritisation	Fri 04/08/23	Mon 04/09/23		£0.00	Work														
						Cost														
38	22/23 Works Program	Tue 05/09/23	Tue 05/09/23		£0.00	Work														
						Cost														
39	Pollarding / Felling	Tue 05/09/23	Mon 25/03/24		£750,000.00	Work														
						Cost														
40	Replanting	Tue 05/09/23	Mon 25/03/24		£210,000.00	Work														
						Cost														

APPENDIX E - BUDGET OVERVIEW

BUDGET OVERVIEW (2021 - 2024)

Baseline Cost
£2,894,300.00

Baseline Budget Cost
£1,000,000.00



Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir CEREDIGION	
ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu - Cymunedau Ffyniannus
DYDDIAD:	20 Ionawr 2022
LLEOLIAD:	O bell - yn rhithiol
TEITL:	Gwasanaeth Rheoli Gwastraff
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Er gwybodaeth
RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	I gael gwybodaeth am berfformiad presennol y gwasanaeth rheoli gwastraff a'i gynlluniau at y dyfodol.
1 CEFNDIR	
<p>Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth am yr isod:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Adroddiad yn amlinellu pa fanteision effeithlonrwydd a gafwyd o ail-ddylunio'r llwybrau ac a ydynt fel y rhagwelwyd neu a ydynt yn well na'r hyn a ddychmygwyd yn y ddogfen ailgynllunio. 2. Mesur y costau tanwydd ychwanegol a briodolir i ailgynllunio'r llwybrau, ar ôl tynnu bant unrhyw gynnydd yn y costau tanwydd o ddydd i ddydd. 3. Mesur unrhyw gostau traul ychwanegol i'r cerbydau casglu o ganlyniad i ailgynllunio'r llwybrau. 4. Mesur unrhyw gostau llafur ychwanegol o ran goramser ac ati, sy'n uniongyrchol o ganlyniad i ailgynllunio'r llwybrau. 5. Darparu data cymharol o gyfraddau'r casgliadau wythnosol a gollwyd dros y tair blynedd diwethaf. 6. Darparu adroddiad diweddar ynghylch y cyfeiriad y bydd yr adran yn ei ddilyn wrth adnewyddu'r fflyd gasglu, gan gadw mewn cof eu heffaith ar yr amgylchedd a dyhead y Cyngor i fod yn Gyngor di-garbon. 7. Darparu adroddiad byr o ran ble rydym arni o ran yr orsaf drosglwyddo Gwastraff arfaethedig ym Mhenrhos. 8. Darparu data cymharol ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf o ran yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd. 9. Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y defnydd a wneir / tunelli a adawyd yn ein safleoedd Amwynder Dinesig dros y flwyddyn ddiwethaf. 10. Rhoi amcangyfrif o ba bryd y bydd y gwasanaeth gwastraff gardd yn debygol o gael ei ailgyflwyno. <p>Deallir bod cwestiynau 1-4 yn ymwneud â'r gwasanaeth newydd casglu gwastraff wrth ymyl y ffordd. Yn anffodus, ni fu modd adolygu'r gwasanaeth oherwydd y ffyrdd newydd o weithio a roddwyd ar waith mewn ymateb i bandemig COVID-19 ac felly nid yw'r model newydd wedi bod ar waith yn unol â'r bwriad dros y rhan fwyaf o'r ddwy flynedd ers ei gyflwyno.</p>	

Serch hynny, mae'r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o ddata am berfformiad a chyfyngiadau'r gwasanaeth.

Rhoddir gwybodaeth parthed cwestiynau 5-10 yng nghorff yr adroddiad.

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu dadansoddiad o berfformiad y gwasanaeth ar sail yr Amcanion Corfforaethol a'r gofynion statudol.

2 AMCANION CORFFORAETHOL

Gweledigaeth y Cyngor yw darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog, cynaliadwy a gwerth am arian sy'n cefnogi economi gref ac amgylchedd iach ac yn hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau. Mae amcanion Llesiant Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys:

- Lleihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu
- Ailgylchu mwy
- Lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi

Mewn geiriau eraill, nod y Cyngor yw darparu gwasanaethau o safon sy'n gost-effeithiol, gan gynnwys ei wasanaeth rheoli gwastraff.

Mae pob Awdurdod Lleol yn ei chael hi'n anodd cyflawni amcanion o'r fath ar hyn o bryd. Mae demograffeg Ceredigion yn cynnig heriau ychwanegol o ran ei wasanaethau rheoli gwastraff:

Dwysedd isel o ran poblogaeth:

- Anodd cyrraedd cartrefi
- Llwybrau casglu gwastraff yn hir
- Mwy o amser teithio segur, anghynhyrchiol
- Prin yw'r cyfleoedd ar gyfer arbedion maint

Pellter:

- Y pellter i gyrraedd ailbroseswyr a marchnadoedd
- Costau cludo
- Mynediad i Safleoedd Gwastraff Cartrefi

Dylid nodi bod yr holl ddata a gesglir yng Ngheredigion yn ymwneud â Gwastraff Solid Trefol, ac mae'n cynnwys gwastraff domestig a'r gwastraff a gesglir gan gwsmeriaid gwastraff masnachol y Cyngor. Oherwydd y ffordd y caiff gwastraff domestig a masnachol ei gasglu ynghyd yn yr un cerbyd, nid yw'n bosib gwahaniaethu'n gywir rhwng y ddau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun data yn ystod COVID-19.

3 CRYNODEB O'R NEWIDIADAU DIWEDDAR YN Y GWASANAETH

2017-18	Ymgynghori'n eang – dewisiadau ar gyfer casglu ar ymyl y ffordd
2018	Y contract ar gyfer Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff Beulah yn dod i ben



Promoting
Environmental and
Community Resilience

Tudalen 23

	Newid oriau yn Safle Gwastraff Cartrefi Rhydeinon yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus
2019	Cyflwyno gwasanaeth casglu newydd wrth ymyl y ffordd ar draws y sir yn raddol rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr
2020	O ganlyniad i COVID-19: <ul style="list-style-type: none">• Cyfnod clo cenedlaethol oddi ar fis Mawrth 2020• Cau'r Safleoedd Gwastraff Cartrefi dros dro ac, wedi hynny, rhoi trefniadau COVID-ddiogel ar waith ar gyfer ailagor• Atal casgliadau gwastraff gardd / gwastraff swmpus o gartrefi am y tro• Canolbwyntio ar y gwasanaeth casglu gwastraff craidd, gan weithredu o dan gyfyngiadau COVID-19• Blaenoriaeth ar gynnal gwasanaethau'n ddiogel mewn amgylchedd cyfnewidiol ac anwadal. Roedd gofyn adolygu trefniadau yn barhaus• Newid yn y ffordd o weithio yn y gwasanaeth casglu gwastraff er mwyn medru cadw pellter cymdeithasol
2021	<ul style="list-style-type: none">• Caffael nifer o gcontractau gwastraff sylweddol, gan gynnwys Safleoedd Gwastraff Cartrefi Glanyrafon, Cilmaenllwyd a Rhydeinon, a chontract MRF• Gwaith yn parhau o ran trefniadau Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff yn ne'r sir• Ailstrwythuro staff a phenodi unigolion allweddol

Tabl 1 Newidiadau Diweddar yn y Gwasanaeth


4 PERFFORMIAD

Mae Ffigwr 1 yn dangos perfformiad y Cyngor ar sail dau o'r amcanion corfforaethol:

- Lleihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu
- Lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi


Mae tuedd gyffredinol am i lawr o ran faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu.

Mae faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn cael ei bennu i raddau helaeth gan lwyddiant y contract trin gwastraff gweddilliol. Mae parhad y sefyllfa bresennol yn dibynnu ar berfformiad parhaus y cyfleuster/ contractwr Troi Gwastraff yn Ynni.



Ffigwr 1 Perfformiad rheoli a lleihau gwastraff Cyngor Sir Ceredigion


Mae'r amcan corfforaethol i gynyddu swm yr ailgylchu yn cael ei ystyried gan mwyaf fel canran o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchir. Fel y dengys y siart isod, mae gan Geredigion hanes llwyddiannus o ran ei berfformiad ailgylchu ar sail targedau ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru.



Ffigwr 2 Perfformiad Cyngor Sir Ceredigion ar sail targedau ailgylchu

Mae Ffigwr 3 yn dangos perfformiad Ceredigion o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill Cymru. Mae hyn yn dangos bod Ceredigion yn y 4 Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru ar hyn o bryd o ran ailgylchu.


Chart 3: Combined local authority municipal waste reuse/recycling/composting rates, by local authority, 2019-20 and 2020-21




Source: WasteDataFlow

Ffigur 3: Perfformiad Awdurdodau Lleol Cymru

Cynhelir dadansoddiad o gostau rheoli gwastraff Awdurdodau Lleol Cymru yn flynyddol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Mae Ffigyrau 4 a 5 isod yn awgrymu bod gwasanaeth Ceredigion yn rhesymol o gost-effeithiol o'i gymharu â Chynghorau sydd â demograffeg tebyg, ar sail cost fesul aelwyd a chost fesul cilomedr o briffordd.



Ffigwr 4: Costau ailgylchu Cymru fesul aelwyd (ffynhonnell CLILC – canlyniadau drafft)



Ffigwr 5 costau yng Nghymru fesul cilomedr o briffordd (ffynhonnell CLILC – canlyniadau drafft)

I grynhoi, ymddengys fod gwasanaeth rheoli gwastraff y Cyngor yn perfformio'n dda ar sail yr amcanion corfforaethol.


4.1 Perfformiad y gwasanaeth newydd ‘Casglu wrth ymyl y ffordd’

Dylid nodi mai ychydig iawn o ddata sy'n ymwneud â pherfformiad y gwasanaeth newydd casglu gwastraff wrth ymyl y ffordd, fel y'i cynlluniwyd. Daeth y broses gyflwyno i ben ym mis Rhagfyr 2019 ac roedd COVID-19 wedi effeithio ar y broses o roi'r gwasanaeth ar waith o fis Mawrth 2020 ymlaen.

Mae Ffigwr 6 yn dangos y newid ym mhwysoau pob ffrwd wastraff a gesglir wrth ymyl y ffordd rhwng 2017/18 a 2019/20. Ystyrir bod y newid yn ystod 2019/20 yn ganlyniad i gyflwyno'r model casglu newydd ar ymyl y ffordd. Mae'r siart yn dangos fod:


- Gwastraff gweddilliol (“bagiau du”) wedi gostwng. Rhwng 2018/19 a 2019/20 gostyngodd gwastraff gweddilliol gan 12%.

- Ychydig iawn o newid a fu yng mhwsau'r bagiau clir a gasglwyd wrth ymyl y ffordd dros y tair blynedd diwethaf.
- Cynyddodd swm y gwastraff bwyd a gasglwyd rhwng 2017/18 a 2018/19. Bu'r cynnydd mwyaf rhwng 2018/19 a 2019/20, pan fu cynnydd o dros 16%
- Ystyrir bod y cynnydd yn y gwydr a gesglir wrth ymyl y ffordd yn ystod 2019/20 yn ganlyniad i'r ffordd y cafodd y gwasanaeth 'ymyl y ffordd' ei gyflwyno'n raddol dros y flwyddyn.



Ffigur 6: Newidiadau Cyngor Sir Ceredigion o ran y perfformiad wrth ymyl y ffordd


Disgwylid y byddai cyflwyno'r casgliadau gwydr wrth ymyl y ffordd yn arwain at ailgylchu llai o wydr drwy ffordd eraill. Mae Ffigur 7 yn dangos bod gwydr o bob ffynhonnell arall wedi gostwng wrth i'r gwasanaeth casglu wrth ymyl y ffordd gael ei roi ar waith. Cynyddodd cyfanswm y gwydr a ailgylchwyd - o bob ffynhonnell - gan 440 o dunelli rhwng 2018/19 a 2019/20, sef cynnydd o 21%.



Ffigwr 7: Newid o ran ffynonellau ailgylchu gwydr

4.2 Effaith COVID-19

Isod mae cymhariaeth o'r data rhwng Chwarter 4 2019/20 (sy'n dangos y casgliadau newydd wrth ymyl y ffordd ar ôl eu cyflwyno'n llawn) a data Chwarter 4 cyn ac ar ôl cyflwyno'r gwasanaeth newydd casglu wrth ymyl y ffordd. Mae'n dangos fod cyflwyno'r gwasanaeth newydd wedi cael y dylanwad a fwiadwyd ar berfformiad, yn ôl pob tebyg, gyda gostyngiad mewn gwastraff gweddilliol a chynnydd yn nifer y gwastraff bwyd, y deunyddiau ailgylchadwy a'r gwydr a gesglir o ymyl y ffordd. Mae'n anos dadansoddi effaith uniongyrchol COVID-19 a'i effaith ar gyfer y dyfodol.



Ffigur 8 Chwarter 4 - Dadansoddiad ymyl y ffordd

Mae'r darlun ar gyfer 2020/21 gyfan yn awgrymu cynnydd o ran faint o wydr a gwastraff gweddilliol a gesglir wrth ymyl y ffordd. Casglwyd mwy o wastraff wrth ymyl y ffordd yn Chwarter 1 2021/22 nag ar unrhyw adeg ers 2017.

Bydd y cynnydd o ran gweithio gartref yn effeithio ar y data ar gyfer 2020/21 a 2021/22, yn ogystal â chau'r diwydiant lletygarwch a Safleoedd Gwastraff Cartrefi yn ystod y cyfnodau clo, gostyngiad yn y gwastraff masnachol a gynhyrchir gan gwsmeriaid gwastraff masnachol y Cyngor, a'r nifer cynyddol o ymwelwyr yn y sir pan ganiatawyd hynny.

Mae'r data uchod yn cwmpasu prif gyfnod cyfyngiadau COVID-19. Dylid cymryd gofal wrth gymharu canlyniadau 2020-21 â blynyddoedd blaenorol gan nad yw'n glir pa effeithiau sy'n rhai tymor byr yn sgil y pandemig a pha rai sy'n fwy hirdymor.

O ran newidiadau yn y gwaith, mae COVID-19 wedi golygu bod angen newid y ffyrdd o weithio, yn enwedig o ran cadw pellter cymdeithasol. Mae nifer yr aelodau criw yn y cab wedi gorfod lleihau mewn rhai achosion. Crynhoir yr effaith isod:

- Llwyth gwaith cerbydau 26T wedi cael eu rhannu rhwng dau gerbyd o achos gofynion cadw pellter, gan olygu bod:
 - Cynnydd o ran yr angen am gerbydau, yng nghyd-destun prinder cenedlaethol o gerbydau
 - Yr ail lwythwr yn gyrru hefyd
 - Cynnydd mewn costau
 - Cynnydd mewn tanwydd a chostau cysylltiedig y fflyd
 - Casglu gwastraff mewn cerbydau nad ydynt wedi'u cynllunio at y diben hwnnw – llai effeithlon
 - Llwyth gwaith mwy o faint i'r Uned Cynnal a Chadw Trafnidiaeth
 - Cynyddu'r risg o'r gwasanaeth yn methu
- Newid o ran tunelli a maint y gwastraff gan arwain at:

- Anawsterau capasiti
- Mwy o deithiau i'r orsaf Trosglwyddo Gwastraff
- Mwy o lwyth gwaith

I grynhoi, bu cynnydd yn y gwastraff sy'n cael ei gyflwyno wrth ymyl y ffordd a rhai aelodau staff yn gweithio mewn cerbydau na chynlluniwyd at y diben. O ganlyniad cafwyd mwy o lwyth gwaith, mwy o oramser, costau uwch, a mwy o anawsterau. Mae'r llun isod yn cyfleu'r mater.



Ffigwr 9: Y cerbyd a ddyluniwyd at y diben yn y cefndir a'r cerbyd a ddefnyddir ar hyn o bryd ar y dde

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf cafodd staff gymeradwyaeth - yn llythrennol - ar y strydoedd, a llawer o negeseuon o ddiolch a rhoddion am eu gwaith caled. Gydag amser mae hyn wedi newid, ac erbyn hyn mae disgwyl i bethau ddychwelyd i'r arfer.

Mae'n bwysig cofio fod staff y gwasanaeth wedi gweithio drwy gydol COVID-19 gan weithio 5-6 diwrnod yr wythnos ac eithrio Dydd Nadolig a Dydd Calan, yn ogystal â chefnogi gwaith brys megis gwaith cynnal a chadw'r Priffyrdd dros y gaeaf.



4.3 Ymagwedd at ofal Cwsmeriaid

Mae casglu gwastraff yn un o wasanaethau mwyaf uchel ei broffil y Cyngor – mae disgwyl i ni ddarparu dros 4.2 miliwn o gasgliadau y flwyddyn.


Rydym yn deall mor bwysig yw darparu gwasanaeth casglu gwastraff dibynadwy ac effeithiol ac yn ymdrechu, o ddydd i ddydd, i ddarparu gwasanaeth o safon i'r cyhoedd. Mae bod yn wasanaeth gweithredol mawr o ran maint a chwmpas yn anochel yn dod â'i heriau. Ar adegau, gall materion sy'n effeithio ar ein staff a'n cerbydau effeithio ar ein gallu ni i ddarparu'r gwasanaeth yr ydym yn dymuno'i ddarparu ac a ddisgwylir ac a haeddir gan y cyhoedd. Os felly, ein nod yw adfer y sefyllfa cyn gynted â phosib a darparu gwybodaeth amserol i'r cyhoedd. Rydym yn gwneud hyn drwy ffordd arloesol sef cyhoeddi adroddiadau

amharu dyddiol ar wefan y Cyngor a thrwy Clic pan fydd yr amharu yn digwydd. Maent yn rhoi manylion am y llwybrau a'r ffrydiau gwastraff yr effeithir arnynt ynghyd â chrynodeb o'r hyn sydd wedi achosi'r amharu. Hefyd darperir cyngor i'r cyhoedd ynghylch i beth a sut rydym yn ymateb. Mae darparu'r wybodaeth fel hyn, a bod pobl yn cael gafael arni ac yn ei defnyddio, yn caniatáu i'n rheolwyr gweithredol ganolbwyntio ar yr ymateb ac ar leihau effaith yr amharu cymaint ag y bo modd.


4.4 Safleoedd Gwastraff Cartrefi

Nid yw'r gwasanaeth yn cadw data cadarn am nifer y bobl sy'n defnyddio'r Safleoedd Gwastraff Cartrefi. Fodd bynnag, mae'r data am bwysau yn ffordd arall ddibynadwy o ddangos y defnydd a wneir o'r safleoedd. Mae Ffigwr 10 yn dangos bod:

- Safleoedd Gwastraff Cartrefi Llambled a Rhydeinon wedi gweld gostyngiad yn y defnydd rhwng 2017/18 a 2018/19. Gwelodd Glanyrafon gynnydd bychan.
- Gwelodd y pedwar safle ostyngiad yn y defnydd rhwng 2018/19 a 2019/20. Gellir priodoli hyn, yn rhannol, i gyflwyno'r model newydd 'casglu wrth ymyl y ffordd'. Roedd y newid yng Nghilmaenllwyd yn llai siarp nag yn y tri safle arall.
- Bu gostyngiad sylweddol yn y defnydd yn 2020/21, y credir ei fod yn gysylltiedig â COVID-19 a chau'r Safleoedd Gwastraff Cartrefi.
- Mae'r data ar gyfer chwe mis cyntaf 2021/22 yn dangos fod y defnydd a wneir o safleoedd Rhydeinon a Llambled yn ôl i'r lefelau cyn COVID-19 (Ffigwr 11)




Ffigwr 10: Tunelli yn y Safleoedd Gwastraff Cartrefi 2016-2021



Ffigwr 11: Dadansoddiad o'r defnydd a wnaed o'r Safleoedd Gwastraff Cartrefi ar ôl COVID-19

5 RIPTIO ACHOSION O FETHU Â CHASGLU BINIAU

Nid yw'r gwasanaeth yn casglu data ar hyn o bryd ynglŷn â'r amhariadau ar y gwasanaeth a gyhoeddir. Mae Ffigwr 12 yn dangos fod nifer y biniau y riportiwyd eu bod wedi'u methu wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ni fu adnoddau ar gael i bennu a oedd y biniau a fethwyd yn ddilys h.y. bod y gwastraff wedi'i gyflwyno yn y ffordd gywir ac ar amser.




Ffigwr 12 Nifer y biniau y riportiwyd eu bod wedi'u methu 2018/19 - 2020/21

6 TIPIO ANGHYFREITHLON


Ymddengys fod nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a riportiwyd wedi gostwng rhwng 2019/20 a 2020/21. Mae'r rhan fwyaf o achosion ar raddfa fach (cist car neu lai). Mae rhywfaint o berthynas rhwng nifer yr achosion a'r cyfnod yr oedd y Safleoedd Gwastraff Cartrefi ar gau yn ystod hanner cyntaf 2019/20. Fodd bynnag, nid yw'n bosib cadarnhau'r rhesymau y tu ôl i'r achosion o dipio anghyfreithlon.

Achosion o dipio anghyfreithlon a riportiwyd



Ffigwr 13 Tipio anghyfreithlon a riportiwyd

Tipio anghyfreithlon yn ôl maint



Ffigwr 14 Tipio anghyfreithlon yn ôl maint

Disclaimer : The Caravan Count System should not be used to track the movements of individuals or households from place to place. Using the system in this way could be a breach of the Human Rights Act 1998 or Data Protection Act 1998. The Welsh Government accepts no liability for personally identifiable information inputted on the system. Users should be aware that their data is accessible by all other Local Authorities and Police forces in Wales. Other public bodies or organisations may be added in time but this will not be done without consultation with all existing users.

© 2021 - Welsh Government | [Contact](#)

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR TROSOLWIG A CHRAFFU CYMUNEDAU
FFYNIANNUS**

**a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron.
ddydd Dydd Llun, 8 Tachwedd 2021**

PRESENNOL: Cynghorydd Marc Davies (Cadeirydd), Cynghorwyr Cynghorydd Euros Davies (Is-Gadeirydd), Cynghorydd John Adams-Lewis, Cynghorydd Gareth Davies, Cynghorydd Gethin Davies, Cynghorydd Ifan Davies, Cynghorydd Meirion Davies, Cynghorydd Rhodri Davies, Cynghorydd Steve Davies, Cynghorydd Elizabeth Evans, Cynghorydd Keith Evans, Cynghorydd Gwyn James, Cynghorydd Dai Mason a/ac Cynghorydd John Roberts

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Rhodri Evans, Alun Williams, Catrin Miles, Gareth Lloyd ac Ellen ap Gwynn. (Aelodau Cabinet).

Roedd y Cynghorydd Dafydd Edwards wedi ymddiheuro am na fedrai ddod i'r cyfarfod. Serch hynny, ymunodd y Cynghorydd Edwards â'r cyfarfod yn ystod y trafodaethau.

Roedd y Cynghorwyr Ceredig Davies, Lloyd Edwards ac Elaine Evans hefyd yn bresennol.

SWYDDOGION YN BRESENNOL: Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol; Steve Hallows, Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu'r Priffyrdd; Russell Hughes Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democraataidd; Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democraataidd; Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu; Carwyn Williams a Llinos Williams (Cyfieithwyr).

(10.00 am - 12.49 pm)

23 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Alun Lloyd Jones a Clive Davies am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Catherine Hughes (Aelod Cabinet) am na fedrai ddod i'r cyfarfod. Hefyd, ymddiheurodd y Cynghorydd Dafydd Edwards (Aelod Cabinet) am na fedrai ddod i'r cyfarfod. Fodd bynnag, daeth y Cynghorydd Edwards i'r cyfarfod yn ddiweddarach yn ystod y trafodaethau.

24 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Ni ddatgelodd yr un Aelod o'r Pwyllgor fuddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).

Datgelodd y Cyngorydd Ceredig Davies, Sylwedydd, fuddiant personol a buddiant a oedd yn rhagfarnu a dywedodd wrth y Pwyllgor ei fod wedi derbyn gollyngiad gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau i siarad yn unig.

25 Cadw elfennau o'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Dros Dro mewn trefi yng Ngheredigion

Dywedodd y Cyngorydd Rhodri Evans, Aelod Cabinet, nad oedd y Cyngorydd Dafydd Edwards, Aelod Cabinet yn medru bod yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad ac felly byddai'r swyddogion yn gwneud hynny.

Croesawodd y Cadeirydd Russell Hughes-Pickering, Rhodri Llwyd a Steve Hallows i'r cyfarfod.

Rhoddodd Russell Hughes-Pickering grynodedb byr i'r Aelodau o'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 1 Hydref 2021. Cyfeiriodd yn benodol at y camau nesaf yr oedd wedi sôn amdanynt yn y cyfarfod hwnnw a oedd yn cynnwys ymgysylltu â'r Aelodau Lleol a'r Aelodau Cabinet ym mis Hydref a chyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Craffu heddiw. Dywedodd hefyd y byddai'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet ym mis Ionawr 2022. Pe byddai'r cynigion yn cael eu cefnogi, cadarnhaodd y byddai Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol (ETRO) yn cael ei gyflwyno ac y byddai hyn yn cynnwys cyfnod ymgynghori o chwe mis er mwyn casglu barn y cyhoedd.

Ar ôl hynny cyflwynodd Steve Hallows y cynigion ar gyfer Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol fel rhan o'r broses o wneud elfennau dethol sy'n ymwneud â pharcio a llif y traffig, a roddwyd ar waith dros dro mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, yn nodweddig parhaol. Dywedodd y Swyddog fod nifer o fesurau rheoli traffig wedi'u cyflwyno drwy gyfrwng Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Dros Dro (TRRO) yn Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Cheinewydd, er mwyn hwyluso ymbellhau cymdeithasol yn ystod cyfyngiadau'r cyfnodau clo yn sgil y pandemig Covid-19. Mae Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Dros Dro yn para uchafswm o 18 mis, ac mae'r rhai hynny sydd mewn grym yn dechrau dod i ben o fis Hydref 2022 ymlaen. Mae'n bosibl iddynt gael eu hystyried gyda chaniatâd priodol ond dim ond os yw'r rhesymeg sydd wrth wraidd eu creu yn dal yn berthnasol ac yn ddilys. Dywedwyd bod hyn yn annhebygol ar hyn o bryd o ystyried bod y cyfyngiadau clo cyntaf wedi'u llacio.

Dywedodd Mr Hallows fod adolygiad o'r trefniadau dros dro wedi cydnabod bod rhai o'r elfennau wedi bod o fudd ehangach i gymdeithas a bod achos dros ddechrau'r broses gyfreithiol i ystyried gwneud y rhain yn fwy parhaol, drwy wneud dau Orchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol. Un er mwyn ymdrin â'r cyfyngiadau parcio a fydd yn diwygio'r Gorchymyn Parcio Traffig sy'n bodoli ar lefel sirol ac un i ymdrin â'r rheoliadau 'symud', megis llif traffig unffordd, gwaharddiadau troi i'r dde/chwith, dim mynediad ayb.

Aeth y Swyddog yn ei flaen wedyn i esbonio'r broses. Ar ôl cyhoeddi Hysbysiad o Fwriad, byddai gan aelodau'r cyhoedd gyfnod o chwe mis pan fyddai modd iddynt gyflwyno gwrthwynebiadau ffurfiol i'r broses Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol. Esboniodd hefyd y gall Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol barhau mewn grym am gyfnod o hyd at 18 mis. Ar ddiwedd y cyfnod chwe mis cychwynol ar gyfer gwrthwynebiadau, gall yr Awdurdod benderfynu dirymu Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol, ei ddiwygio neu ei wneud yn barhaol. Drwy ddefnyddio Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol fel y broses o wneud nodweddion yn barhaol a'u haddasu lle bo angen, caniateir cyfnod hwy, felly, pan ellir monitro eu heffeithiau a gall aelodau'r cyhoedd fynegi unrhyw wrthwynebiadau i gyflwyno Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Parhaol.

Ar ôl hynny, cafodd y mesurau arfaethedig i gadw/newid eu cyflwyno i'r Aelodau fel a ganlyn:

ABERTEIFI

Yn ogystal â'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol a amlinellir uchod, cynghorir cadw'r adrannau o'r droedffordd a ledwyd yn y lleoliadau canlynol. Mae'r rhain wedi eu lleoli yn:

- Y Stryd Fawr (ger Belottis)
- Neuadd y Dref
- Pendre (ger y Siop Sglodion)
- Stryd y Priordy (Crwst)

Cynigir cynnwys y mesurau parcio canlynol yn y Gorchmynion Rheoliadau Traffig Arbrofol:

1. Cyflwyno Cilfan Lwytho newydd 12 metr o hyd, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 8am a 5pm am 20 munud a dim dychwelyd o fewn 20 munud ar Y Stryd Fawr gyferbyn â'r safle bws (a fydd yn cael ei adfer) i'r de o Neuadd y Sir. Bydd hon yn lle'r Gilfan Lwytho dros dro a gyflwynwyd yn lleoliad y safle bws. Bydd y Gilfan Lwytho newydd yn lle rhan o'r gilfan aros am amser cyfyngedig a oedd ar ochr arall y ffordd cyn cyflwyno'r parth diogel.
2. Cyflwyno man parcio newydd i Ddeiliaid Bathodyn Anabl yn unig, rhwng 8am a 6pm, 3 awr a dim dychwelyd o fewn 3 awr wrth ochr y Gilfan lwytho uchod yn 1 er mwyn meddiannu gweddill y gilfan lle'r oedd aros cyfyngedig.
3. Cyflwyno gwaharddiad newydd rhag Aros ar Unrhyw Adeg ar y Stryd Fawr o ben gogleddol y safle bws i'r de o Neuadd y Sir i'r groesffordd â Lôn y Farchnad (ychydig y tu hwnt i siop delicatessen Belotti)
4. Cadw'r adran a gyflwynwyd dros dro yn yr ardal lle y gwaharddwyd Aros ar unrhyw adeg ar Stryd y Priordy, ger Crwst, lle y gosodwyd darn estynedig newydd.
5. Cadw'r adran a gyflwynwyd dros dro yn lle parcio ar gyfer Deiliaid Bathodyn Anabl yn Unig, rhwng 8am a 6pm, 3 awr a dim dychwelyd am 3 awr ger y Clinig Traed ar ochr arall Stryd y Priordy.
6. Cadw'r gwaharddiad dros dro rhag aros ar unrhyw amser ym Mhendre o Mundos/Caffi Food for Thought i'r gyffordd â Rhodfa'r Felin gerllaw Caffi

a Siop Pysgod a Sglodion Pendre.

Cynigir cynnwys y Gwaharddiadau canlynol rhag Symud yn y Gorchmynion Rheoliadau Traffig Arbrofol:

1. Cadw'r llif traffig unffordd a gyflwynwyd dros dro yn Rhes y Coleg (o'r Stryd Fawr i Res y Frenhines/Mwldan Ganol ger maes parcio Caeglas).
2. Cyflwyno gwaharddiad newydd rhag troi i'r chwith o'r [maes parcio] ym Mwldan Uchaf i mewn i Res y Coleg
3. Cyflwyno gwaharddiad rhag troi i'r dde o Fwldan Ganol i mewn i Res y Coleg.
4. Cyflwyno llif traffig unffordd newydd ym Mhwllhai o Ganolfan Hen Bethau Aberteifi (Cardigan Antiques Centre) i'r gyffordd â'r Stryd Fawr (o'r dwyrain i'r gorllewin).
5. Cyflwyno llif traffig unffordd newydd yn Lôn Siawnsri o gyfeiriad Stryd y Santes Fair i'r Stryd Fawr (o'r de i'r gogledd).

CEINEWYDD

Cynigir cynnwys y mesur parcio canlynol yn y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol:

1. Cadw'r parcio ar gyfer Deiliaid Bathodyn Anabl yn unig rhwng 9am a 5pm, 3 awr a dim dychwelyd o fewn 3 awr a osodwyd dros dro ar yr ochr sy'n wynebu'r môr o Res Glanmor yn y bae gyferbyn â'r Penwig.
2. Cyflwyno Gwaharddiad newydd rhag Parcio ar unrhyw adeg ar ochr orllewinol Stryd loan ac ar bob ochr i'w chyffordd â Stryd yr Efail i ymuno â'r Gwaharddiadau presennol rhag Parcio ar unrhyw adeg.
3. Cyflwyno Gwaharddiad newydd rhag parcio ar unrhyw adeg ar Stryd loan o ddiwedd y gwaharddiad presennol rhag parcio ar unrhyw adeg ger eiddo o'r enw The Marina i ffin yr eiddo ar ochr y tir o Dŷ Glyn yng Nglan Dolau gyferbyn â'r gyffordd â Maes yr Odyn.

Cynigir cynnwys y canlynol yn y Gwaharddiad rhag Symud yn y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol:

1. Cadw'r rhan o'r llif traffig unffordd ar Heol y Dŵr o'r gyffordd â Stryd yr Hen Goleg wrth deithio i'r gogledd-ddwyrain i'r gyffordd â'r Beili.
2. Cyflwyno gwaharddiad newydd rhag troi i'r dde o Res y Morwyr i mewn i Heol y Dŵr.
3. Cyflwyno gwaharddiad newydd rhag troi i'r chwith o'r Beili i mewn i Heol y Dŵr.

ABERAERON

Yn ychwanegol at y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol a amlinellir isod, cynghorir cadw'r adran a ledwyd o'r droedffordd yn y lleoliadau canlynol. Mae'r rhain wedi'u lleoli ar

- Heol y Farchnad (ger Tafarn Cadwgan, Celtic, Costcutters)

Argymhellir i Lywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru bod y rhan o'r droedffordd sydd wedi ei lledu ger Ambassadors ar yr A487 yn cael

ei thynnu ymaith a bod y rhan hon yn dychwelyd i fod yn fan lle mae cyfyngu ar aros, a bod y rhan sydd â llinellau melyn dwbl ger y gyffordd â'r A487 a Sgwâr Alban ger y Royal Oak yn cael ei chadw.

Cynigir cynnwys y mesurau parcio canlynol yn y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol:

1. Cadw hanner deheuol (tuag at gefnffordd yr A487) y parcio i Ddeiliaid Bathodyn Anabl yn unig, 2 awr a dim dychwelyd am ddwy awr a gyflwynwyd dros dro i'r gilfan ar ochr arall y ffordd i Costcutter ar Heol y Farchnad. Bydd hanner gogleddol y gilfan (tuag at yr harbwr) yn mynd yn ôl i fod yn aros cyfyngedig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 9am a 6pm, 1 awr a dim dychwelyd o fewn yr awr.
2. Cadw'r rhan lle ceir gwaharddiad rhag aros ar unrhyw adeg gyferbyn y cilfannau uchod – ar gyfer deiliaid bathodyn anabl a lle ceir cyfyngu ar aros (i) y tu allan i Costcutter i gydfynd â'r droedffordd a ledwyd (ac sydd wedi'i chadw.
3. Cadw'r rhan o'r Gwaharddiad Rhag Aros ar Unrhyw Adeg a gyflwynwyd dros dro yng Nghadwgan ar yr ochr sydd ar bwys Pwll Cam o'r gyffordd â Heol y Farchnad / Stryd y Tabernacl hyd at y gyffordd â Lôn Ganol, ac ymestyn hyn i'r gyffordd â Phen Cei ger The Hive, gan gynnwys y fynedfa at lan cei yr harbwr.
4. Cadw'r rhan lle ceir parcio i Ddeiliaid Bathodyn Anabl yn unig, 2 awr a dim dychwelyd o fewn 2 awr a gyflwynwyd dros dro ar ochr ddeheuol Stryd Buddug ger Neuadd y Sir.
5. Cyflwyno Cilfan newydd i Gerbydau Nwyddau ar gyfer Llwytho yn unig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 9am a 5pm, 30 munud a dim dychwelyd o fewn awr, 12 metr o hyd ar ochr orllewinol Sgwâr Alban ar ochr orllewinol y ffordd.
6. Cyflwyno cilfan newydd ar gyfer Deiliaid Bathodyn Anabl yn Unig, 6.6 metr o hyd ar ochr orllewinol Sgwâr Alban ar ochr orllewinol y ffordd..

Cynigir cynnwys y Gwaharddiadau rhag Symud canlynol yn y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol:

1. Cadw'r llif traffig unffordd a gyflwynwyd dros dro ar ran isaf Ffordd y Gaer o'r gogledd i'r maes parcio talu ac arddangos, hyd at lan y môr, ar hyd glan y môr ac i mewn i Stryd y Tabernacl ac yna Heol y Farchnad.
2. Cyflwyno gwaharddiad newydd rhag troi i'r chwith o Heol Tudur i Stryd y Tabernacl.
3. Cyflwyno gwaharddiad newydd rhag troi i'r dde o Lan y Môr i Stryd y Tabernacl.

ABERYSTWYTH

Yn ychwanegol at y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol a amlinellir isod cynghorir bod y rhannau o'r droedffordd sydd wedi eu lledu yn y lleoliadau canlynol yn cael eu cadw. Mae'r rhain wedi eu lleoli fel a ganlyn:

- Heol y Wig (ger Sports Direct a Cactws)
- Y Ffynnon Haearn (ger Evola)
- Ffordd y Môr (ger Stars a Boots)

Cynigir cynnwys y mesurau parcio canlynol yn y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrol:

1. Cael gwared ar y parcio ar gyfer Deiliaid Bathodyn Anabl, 2 awr a dim dychwelyd o fewn 2 awr (2-3 lle) ar Stryd y Farchnad ac yn lle hynny rhoi Gwaharddiad rhag Aros ar unrhyw Adeg.
2. Cadw'r Gwaharddiad rhag Aros ar unrhyw Adeg a gyflwynwyd dros dro ar ochr orllewinol Heol y Wig rhwng y gyffordd â'r Stryd Newydd a Stryd y Brenin. (Roedd hwn wedi ei osod yn lle llinell felen sengl a oedd yn Gwahardd rhag Aros rhwng 9am a 6pm).
3. Cadw'r Gilfan i Gerbydau Nwyddau ar gyfer Llwytho yn unig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, 8am i 6pm, 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr a gyflwynwyd dros dro ar ochr ddwyreiniol y Ffynnon Haearn y tu allan i salon trin gwallt Evola a siop gigydd Rattray.
4. Cadw'r Gwaharddiad rhag Aros ar Unrhyw Adeg a gyflwynwyd dros dro yn lle cilfan lwytho ac aros cyfyngedig ar ochr orllewinol y Ffynnon Haearn gyferbyn â'r Gilfan Lwytho yn ii) uchod.
5. Cadw'r parcio ar gyfer Deiliaid Bathodyn Anabl yn unig rhwng 11am a 6pm, 2 awr a dim dychwelyd o fewn 2 awr a gyflwynwyd dros dro ar ochr orllewinol y Ffynnon Haearn ger Cymdeithas Gofal ayb. ond addasu'r amser i fod rhwng 9am a 5pm, 2 awr a dim dychwelyd o fewn 2 awr..
6. Cadw'r rhan parcio ar gyfer Deiliaid Bathodyn Anabl yn unig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 9am a 5pm, 2 awr a dim dychwelyd o fewn 2 awr a gyflwynwyd dros dro ar ochr orllewinol Stryd y Popty (bydd y gilfan ar ochr ddwyreiniol Stryd y Popty yn dychwelyd i fod yn Gilfan Lwytho, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 8am a 1pm, 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr; Aros Cyfyngedig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 1pm a 6pm, 30 munud a dim dychwelyd o fewn 30 munud).
7. Cadw'r parcio ar gyfer Deiliaid Bathodyn Anabl yn Unig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 8am a 5pm, 2 awr dim dychwelyd o fewn dwy awr ar ochr ogleddol y Porth Bach y tu allan i Downies Vaults, Fusion King ayb.
8. Cadw'r gilfan i gerbydau nwyddau ar gyfer llwytho yn unig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, 8am i 5pm, 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1awr a gyflwynwyd dros dro ar ochr ogleddol Stryd Portland wrth y gyffordd â Ffordd y Môr, y tu allan i fynedfa fach fferyllfa Boots.
9. Cadw'r parcio ar gyfer deiliaid bathodyn anabl yn unig 9am i 5pm, 2 awr a dim dychwelyd o fewn 2 awr a gyflwynwyd dros dro ar ochr orllewinol Maes Lowri ger eglwys San Mihangel, ond newid yr amser i 9am i 5pm, 2 awr a dim dychwelyd o fewn 2 awr.
10. Cadw'r Gilfan i Gerbydau Nwyddau ar gyfer Llwytho yn unig o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 8am a 5pm, 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr y tu allan i rifau 8 i 10 am 14.6 metr a gyflwynwyd dros dro ar ochr orllewinol Heol y Wig (ger Sports Direct)
11. Cadw'r Gilfan i Gerbydau Nwyddau ar gyfer Llwytho yn unig o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 8am a 5pm, 1awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr a gyflwynwyd dros dro y tu allan i siop Cactws am 12 metr ar ochr ddwyreiniol Heol y Wig.
12. Cadw'r Gilfan i Gerbydau Nwyddau ar gyfer Llwytho yn unig o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 8 am a 5pm, 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr a gyflwynwyd dros dro ar ochr orllewinol Ffordd y Môr ger Stars.

Cynigir cynnwys y Gwaharddiadau Symud canlynol yn y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrol:

1. Cadw'r llif traffig unffordd a gyflwynwyd dros dro ar Heol y Wig (o'r de i'r gogledd o'r Stryd Fawr i'r Promenâd Newydd/Glan-y-Môr).
2. Cyflwyno Gwaharddiad rhag Troi i'r Chwith o'r Porth Bach i Heol y Wig, er mwyn ategu'r system unffordd yn Heol y Wig.
3. Cyflwyno Gwaharddiad newydd rhag Troi i'r Dde o Stryd y Brenin i Heol y Wig.
4. Cadw'r llif traffig unffordd a gyflwynwyd dros dro ar Ffordd y Môr o lan y môr yng Nglany-Môr i'r cyffyrdd â Stryd Portland
5. Cyflwyno Gwaharddiad newydd rhag Troi i'r Dde o fraich ddwyreiniol Stryd Portland i Ffordd y Môr.
6. Cyflwyno Gwaharddiad rhag Troi i'r Chwith o fraich orllewinol Stryd Portland i Ffordd y Môr.
7. Cyflwyno Gwaharddiad newydd rhag Troi i'r Dde o Ffordd Portland i Ffordd y Môr.
8. Cadw'r llif traffig unffordd a gyflwynwyd dros dro ar Stryd y Popty, o gyfeiriad y gyffordd â Stryd Portland tuag at y gyffordd â Rhodfa'r Gogledd/Y Stryd Fawr.
9. Cyflwyno Gwaharddiad newydd rhag Troi i'r Dde o Stryd y Baddon i Ffordd y Môr.
10. Cadw'r llif traffig unffordd a gyflwynwyd dros dro ar Stryd y Baddon.
11. Cyflwyno gwaharddiadau rhag troi (i'r chwith ac i'r dde) o'r Morfa Mawr i Stryd Baddon.

Diolchodd y Cadeirydd i Steve Hallows am gyflwyno'r wybodaeth a gwahoddodd gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor. Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynglŷn â'r ardaloedd a oedd o ddi-ddordeb ynddyn nhw ac atebwyd y cwestiynau hynny yn eu tro gan y Swyddogion.

Gofynnodd yr Aelodau i ystyriaeth gael ei rhoi i bobl oedrannus ac eiddil nad oes ganddynt fathodyn glas gan fod parcio yn agos i'r dref yn bwysig iawn iddynt. Wrth ymateb, cadarnhawyd bod yr astudiaeth a wnaed wedi edrych ar bob tref yn unigol.

Wrth ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddogion y byddai angen iddynt ymchwilio i'r oriau a ganiateir o dan y Bathodyn Glas. Roedd un o'r Aelodau wedi nodi bod yr oriau a ganiateir wedi gostwng o 3 awr i 2 awr. Roedd yr Aelod o'r farn y dylai'r 3 awr a ganiateid yn wreiddiol ddychwelyd bellach ym mhob un o'r lleoliadau dan sylw.

Wrth ymateb i gwestiwn arall, cadarnhaodd y Swyddogion fod dŵr yn cronni wedi bod yn broblem mewn rhai manau. Dywedwyd bod modd datrys y broblem hon yn weddol hawdd.

Yn dilyn ymholiad, cadarnhawyd y byddai ffioedd trwyddedu ar waith o 2022 ymlaen, ac mai'r rheswm am beidio â chodi tâl tan hynny oedd yr angen i gefnogi masnachwyr Ceredigion yn ystod cyfnod hynod o heriol ac anodd.

Mynegodd un o'r Cynghorwyr ei siom bod aelod o'r cyhoedd wedi gwneud cais i siarad ynglŷn â pharcio i'r anabl yn y cyfarfod y bore yma ond bod y cais hwnnw wedi'i wrthod.

Yn dilyn cwestiwn, cadarnhawyd bod parcio i'r cyhoedd ar gael am 30 munud ar Stryd y Popty, Aberystwyth rhwng 1pm a 6pm bob dydd. Pwysleiswyd hefyd, gan y byddai'r ymgynghoriad yn para 6 mis, y byddai pob sylw, awgrym a barn ynglŷn â'r cynigion hyn a'r

holl drefniadau eraill yn cael eu hystyried.

Yn dilyn cwestiwn ynglŷn ag Aberteifi, cadarnhawyd bod y gilfan lwytho ger y Castell wedi'i lleoli mor agos ag y bo modd er mwyn i draffig fedru mynd heibio yn hwylus. Hefyd, gofynnwyd i'r swyddogion ymchwilio i'r cais am arwyddion i rybuddio loriau bod ffordd benodol yn anaddas ar gyfer cerbydau nwyddau trwm. Gwnaed cais am weld y warden traffig ym Mhendre yn amlach.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor fod angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r hysbysiad o fwriad, a fyddai'n ymddangos yn y wasg ym mis Chwefror 2021 ac yn cynnwys gwybodaeth am y cyfnod ymgynghori 6 mis, gan sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol ohono.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor fod sicrhau mynediad rhwydd i bawb yn allweddol a bod angen ystyried anghenion pobl hŷn ac eiddil (y rheiny heb fathodynau glas) hefyd. Argymhellwyd y dylid sicrhau, wrth bennu ffioedd parcio, eu bod yn fforddiadwy i bawb fel y gall y trigolion barhau i siopa yn eu trefi lleol.

Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu'r cynigion, dywedwyd mai cynigion y swyddogion oedd y rhain ac y byddai angen i'r Cabinet eu cadarnhau.

Dywedodd un o Aelodau'r Pwyllgor ei fod wedi derbyn nifer o gwynion oddi wrth ei etholwyr a oedd yn byw y tu allan i Aberystwyth. Esboniodd nad oeddent bellach yn teimlo'n gyffyrddus yn siopa yn y dref oherwydd y ffyrdd a oedd wedi'u cau a'r systemau unffordd. Cadarnhaodd un o'r swyddogion fod y parthau diogel yn fater ar wahân ac y byddai gan y cyhoedd y cyfle i roi eu barn am y gorchmynion arbrolfol hyn. Croesawodd Aelodau'r Pwyllgor y cyfle i ymateb drwy'r ymgynghoriad.

Ar ôl hynny, rhoddodd y Cadeirydd y cyfle i'r Aelodau nad oeddent yn Aelodau o'r Pwyllgor siarad a chodwyd y pryderon canlynol:

- Bu'n hynod o anodd i'r preswylwyr barcio a dylid ystyried yr effaith ar yr unigolion hynny;
- Dylid ystyried effeithlonrwydd llif y traffig;
- Byddai adroddiad llawn ar yr effaith economaidd yn fuddiol;
- Awgrymwyd y dylid ystyried man gollwng teithwyr y tu allan i'r *Factory Shop* yn Aberteifi;
- Roedd ymestyn y palmentydd wedi arwain at fwy o lifogydd ym Mhendre, Aberteifi.

Yn dilyn trafodaeth hir, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

ARGYMHELLIAD:

Argymhellir bod y cynigion hyn ac unrhyw newidiadau, y tybir eu bod yn angenrheidiol, yn cael eu cymeradwyo i'w cyflwyno i'r Cabinet, er mwyn ceisio caniatâd i wneud y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrolfol a chyhoeddi Hysbysiad i'r perwyl hwnnw yn y wasg leol a dirymu pob mesur arall sy'n gysylltiedig â Gorchmynion Traffig Dros Dro y Parthau Diogel.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymhell yr argymhelliad diwygiedig canlynol (y newidiadau i'w gweld yn y print bras) i'r cabinet:

Argymhellir bod y cynigion hyn ac unrhyw newidiadau, y tybir eu bod yn angenrheidiol **yn**

dilyn trafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd, ac ar ôl ymgynghori â'r Aelodau Lleol yn cael eu cymeradwyo i'w cyflwyno i'r Cabinet, er mwyn ceisio caniatâd i wneud y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrol a chyhoeddi Hysbysiad i'r perwyl hwnnw yn y wasg leol a dirymu pob mesur arall sy'n gysylltiedig â Gorchmynion Traffig Dros Dro y Parthau Diogel.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion, yr Aelod Cabinet a'r Aelodau eraill am eu cyfraniad i'r cyfarfod. Dymunodd Nadolig Llawen i bawb gan ddweud ei fod yn edrych ymlaen at weld pawb yn y Flwyddyn Newydd.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 20 Ionawr 2022

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR TROSOLWIG A CHRAFFU CYMUNEDAU
FFYNIANNUS**

**a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron.
ddydd Dydd Llun, 1 Tachwedd 2021**

PRESENNOL: Cynghorydd Marc Davies (Cadeirydd), Cynghorwyr Cynghorydd Euros Davies (Is-Gadeirydd), Cynghorydd John Adams-Lewis, Cynghorydd Clive Davies, Cynghorydd Gareth Davies, Cynghorydd Gethin Davies, Cynghorydd Ifan Davies, Cynghorydd Meirion Davies, Cynghorydd Rhodri Davies, Cynghorydd Steve Davies, Cynghorydd Gwyn James, Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE, Cynghorydd Dai Mason a/ac Cynghorydd John Roberts

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Alun Williams, Gareth Lloyd. (Aelodau Cabinet).
Y Cynghorwyr Ceredig Davies a Wyn Thomas.

SWYDDOGION YN BRESENNOL: Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol; Steve Hallows, Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu'r Priffyrdd; Bethan Lloyd Davies, Rheolwr y Rhaglen Lleihau Carbon, Ynni a Rheoli Asedau; Lyndon Griffiths, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Eiddo, Economi ac Adfywio; Cari Barker, Rheolwr Gwaith Trin Carthffosiaeth; Andrew Ginn, Rheolwr Gweithrediadau; Phil Jones, Rheolwr Corfforaethol; Gari Jones, Peiriannydd, Teithio Llesol a Diogel; Chris Wilson, Rheolwr y Strategaeth Drafnidiaeth a Diogelwch; Allan Bailey, Rheolwr Rhaglen; Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu; Carwyn Williams a Carol Thomas (Cyfieithwyr).

(10.00 am - 12.17 pm)

16 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Keith Evans am na fedrai ddod i'r cyfarfod gan ei fod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor. Hefyd, ymddiheurodd y Cynghorydd Elizabeth Evans am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

17 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Ni ddatgelodd yr un Aelod o'r Pwyllgor fuddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).

18 Adolygu'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol

Daeth Chris Wilson a Gari Jones i'r cyfarfod i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y gwaith o baratoi Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol. Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am rwydwaith cynyddol yr Awdurdod Priffyrdd Lleol o lwybrau a seilwaith Teithio Llesol a fyddai'n dod o dan y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP). Dywedwyd ei bod yn debygol y byddai gan hyn oblygiadau o ran sicrhau adnoddau ychwanegol ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus.

Byddai'r Aelodau'n ymwybodol fod Llywodraeth Cymru, o dan ddarpariaethau'r Ddeddf, wedi pennu tair ardal yng Ngheredigion fel 'Ardaloedd Dynodedig' ar gyfer teithio llesol sef Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan.

Roedd y gwaith o fonitro'r cynllun teithio llesol yn cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor Sir. Dywedodd y Swyddogion wrth y Pwyllgor fod y gwaith o ddatblygu ac adeiladu'r rhan fwyaf o gynlluniau seilwaith teithio llesol yng Ngheredigion yn cael ei ariannu bron yn gyfan gwbl gan geisiadau am grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru. Roedd yr arian yn dod yn bennaf o'r Gronfa Teithio Llesol ac i raddau llai, o'r grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Dywedodd y Swyddogion mai un o amodau arian grant Llywodraeth Cymru oedd bod yn rhaid i gynlluniau gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â Chanllawiau Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.

Wrth ymateb i gwestiwn gan un o'r Aelodau, cadarnhaodd y Swyddogion nad oedd Llywodraeth Cymru yn clustnodi cymorth cyllid refeniw ar gyfer cynnal a chadw seilwaith newydd ac mai un o amodau derbyn yr arian grant cyfalaf oedd y byddai'r Cyngor Sir yn dod yn gyfrifol am unrhyw gostau cynnal a chadw yn y dyfodol. Dywedwyd y byddai goblygiadau amlwg felly ar gyllidebau'r gwasanaethau.

Roedd llwybrau newydd at ddibenion hamdden yn bennaf a llwybrau y tu allan i'r tair ardal ddynodedig a'r dalgylch teithio llesol, yn debygol o fod yn aflwyddiannus ac ni fyddent yn denu cyllid. Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor bryder ynglŷn â hyn am fod nifer o bentrefi a threfi gwledig yng Ngheredigion.

Wrth ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddogion fod perchnogion tir yn chwarae rhan fawr yn y broses a dywedwyd os na fyddent yn rhoi eu caniatâd, ni fyddai modd i'r Cynllun Teithio Llesol fynd yn ei flaen. Felly, roedd eu cydweithrediad yn hanfodol.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynglŷn â'r hyn a oedd o ddiddordeb iddynt ac atebwyd y cwestiynau hynny gan y Swyddogion. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd postio llythyron cyflwyno tir i berchnogion tir cynllun Rhiwgoch, Aberaeron unwaith eto. Dywedodd un o'r swyddogion y byddai modd gwneud hynny. Hefyd, gofynnodd y Cadeirydd fod hyn yn cael ei nodi yn y cofnodion. Yn dilyn cais gan Aelod o'r Pwyllgor, rhoddwyd sicrwydd y byddai'r swyddogion yn cysylltu â swyddogion Sir Gaerfyrddin i ofyn a oedd ganddynt

unrhyw fwriad o wella'r A484/B4333 rhwng Castellnewydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Yn dilyn trafodaeth hir, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr argymhelliad canlynol:

- Gofynnir i'r Pwyllgor argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r adolygiad o'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol a'r cyfrifoldebau ychwanegol dros Reoli Asedau a'r rhwydwaith Priffyrdd yn y dyfodol mewn perthynas â'r ddarpariaeth Teithio Llesol.

Cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r adolygiad o'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol a'r cyfrifoldebau ychwanegol dros Reoli Asedau a'r rhwydwaith Priffyrdd yn y dyfodol mewn perthynas â'r ddarpariaeth Teithio Llesol.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Dafydd Edwards, Aelod Cabinet, am gyrraedd y cyfarfod yn hwyr. Roedd wedi bod i un o gyfarfodydd eraill y Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am y wybodaeth.

19 Cynllun Gweithredu Sero-Net - Y Diweddaraf am y Cynnydd

Daeth y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet, i'r cyfarfod i roi'r diweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran y camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Sero Net. Roedd Bethan Lloyd Davies a Lyndon Griffiths yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau gan yr Aelodau.

Gwelwyd gostyngiadau mewn allyriadau ym mhob maes gwasanaeth yn ystod 2020/21, o gymharu â'r blynyddoedd ariannol blaenorol. Roedd hyn yn cyfateb i ostyngiad cronol o 28.77% yn erbyn targed o 15% rhwng 2017/18 a 2020/21.

Dywedwyd bod y gostyngiad mwyaf nodedig yn ymwneud â milltiroedd busnes (teithio a wnaed gan staff yn eu cerbydau eu hunain), sef gostyngiad o 71.96% o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Gwariodd yr Awdurdod £1,322,919 yn llai ar ynni yn 2020/21 nag a wnaeth yn 2019/2020.

Adroddwyd bod yr Awdurdod wedi derbyn dau grant, a fyddai'n cael eu defnyddio i ystyried y posibilrwydd o gynyddu'r seilwaith ar gyfer gwefru cerbydau trydan yn y sir.

Roedd Cyngor Sir Ceredigion eisoes yn caffael trydan 'gwyrdd' drwy'r contract trydan corfforaethol. Roedd lle pellach i edrych ar gaffael nwy 'gwyrdd', yn ogystal â thanwyddau hylifol (e.e. LPG neu fiodiesel). Er nad oedd llawer o fudd o ran y ffigurau cyfrifyddu carbon, gellid ei ystyried yn arfer orau i sicrhau bod y cyfleustodau rydym yn eu defnyddio yn dod o ffynonellau cynaliadwy 'gwyrdd'.

Roedd adolygiad asedau tir a gynhaliwyd gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi ystyried amrywiol safleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy. Roedd y rhain yn bennaf yn destun cyfyngiadau sylweddol o ran y grid. Fodd bynnag, tynnodd hyn sylw at y ffaith y byddai angen sicrhau bod y

gosodiadau adnewyddadwy o faint digonol a bod y lleoliadau'n cael eu dewis yn ddibynnol ar eu gallu i ddefnyddio'r ynni a gynhrychir ar y safle.

Roedd maes parcio Canolfan Rheidol wedi'i nodi fel lleoliad posib ar gyfer canopiâu solar ac roedd hyn yn cael ei archwilio ar hyn o bryd.

Roedd ynni adnewyddadwy hefyd yn cael ei gyflwyno fel mater o drefn fel rhan o waith adnewyddu adeiladau a hefyd rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Fel rhan o'r rhaglen, wrth ystyried adeiladu ysgolion newydd, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gweithio tuag at ddatgarboneiddio ac adeiladau sero-net. Roedd gan yr estyniad newydd yn Ysgol Llwyn yr Eos y potensial i ddod yn adeilad sero-net cyntaf y Cyngor. Gosodwyd gwresogi o'r ddaear a phaneli solar fel rhan o'r cynllun a'r gobaith oedd y byddai hyn yn gosod meincnod ar gyfer gwaith adeiladu a fyddai'n cael ei wneud gan yr awdurdod yn y dyfodol.

Dywedodd y swyddogion eu bod wrthi ar hyn o bryd yn cyfrifo'r ôl-troed carbon yn ei gyfanrwydd a byddai'r wybodaeth honno ar gael pan fyddent yn rhoi'r diweddariad nesaf.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ac atebwyd y cwestiynau hynny yn eu tro gan yr Aelod Cabinet a'r Swyddogion.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor nodi'r cynnydd a wnaed o ran y camau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Sero-net. Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion a'r Aelod Cabinet am gyflwyno'r wybodaeth.

20 Adroddiad ar sefyllfa bresennol y rhaglen Gwaith Trin Carthffosiaeth

Daeth y Cynghorydd Rhodri Evans, Aelod Cabinet, i'r cyfarfod i roi gwybodaeth am sefyllfa bresennol y Rhaglen Gwaith Trin Carthffosiaeth fel y nodir yn yr adroddiad.

Roedd Lyndon Griffiths, Cari Barker ac Andrew Ginn hefyd yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau oddi wrth yr Aelodau.

Dywedwyd bod tri gwaith trin carthffosiaeth wedi cael eu mabwysiadu gan Ddŵr Cymru hyd yn hyn sef Tan y Groes, Betws Bledrws a Blaencelyn, a bod pedwar cais wedi'u cyflwyno parthed gwaith trin carthffosiaeth ond bod y Cyngor yn aros am ymateb iddynt sef Olmarch, Pontrhydygroes, Abermagwr a Bronant. Roedd wyth cais arall yn barod i'w cyflwyno yn y dyfodol sef Capel Dewi, Coed y Bryn, Cwmcou, Llandyfriog, Sarnau, Swyddffynnon, Ysbyty Ystwyth a Brynhoffnant. Roedd gan chwe safle arall faterion oedd angen eu datrys sef Blaenannerch (materion hawddfrait), Blaenporth (cysylltiad anghyfreithlon), Lledrod (mater ynglŷn â'r tir – Barcud), Llwynygroes 1 (cadarnhad ynghylch yr angen am dir), Rhydowen (mater ynglŷn â'r tir) a Glan Ifor, Glanrhyd. O ran Glan Ifor, byddai angen dylunio gorsaf bwmpio bwrpasol. Bwriedir gwneud y gwaith drwy contract dylunio ac adeiladu. Roedd y gwaith dylunio i ddiweddar safle Bro Tygwydd, Llandygwydd wedi'i wneud ac roedd y cynllun wedi'i dendro. Byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd gyda'r trigolion yr effeithir arnynt. Hefyd, dywedodd y Swyddog nad oedd y gwaith o ran Tregroes

(caffael tir), Llangwryfon (mater mynediad), Cilcennin (caffael tir), Llwynogroes 2 a Phentregat (methu canfod cwrs dŵr addas) wedi'i gwblhau.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau a oedd yn ymwneud â'r ardaloedd dan sylw. Codwyd pryder ynghylch y ffaith bod rhai trigolion yn gorfod talu Trethi Busnes sy'n swm llawer yn uwch. Cytunodd yr Aelodau fod angen i'r mater hwn gael ei ddatrys ar fyrder. Cytunodd y Swyddogion â hyn a gwnaethant gadarnhau bod gwaith ar y gweill o ran yr achosion hyn a'u bod yn cyfathrebu'n barhaus â Dŵr Cymru.

Diolchodd y Cynghorydd Rhodri Evans i'r Swyddogion am y gwaith caled a wnaed ym mhob ymgais i ddatrys y materion hyn.

Hefyd, diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion a'r Aelod Cabinet am y wybodaeth a gyflwynwyd.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad.

21 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2021 yn rhai cywir. Nid oedd dim materion yn codi ohonynt.

22 Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu

Cytunodd yr Aelodau i nodi'r Flaenraglen fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar wahodd Swyddog o Dŵr Cymru i un o gyfarfodydd y dyfodol.

Nodwyd y byddai eitem ynglŷn â Chasglu Sbwriel yn cael ei hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 20 Ionawr 2022. Gofynnodd Lisa Evans i'r Aelodau i gysylltu â hi pe byddai ganddynt unrhyw faterion penodol y byddent yn dymuno eu trafod yn y cyfarfod hwnnw.

Cytunwyd i gynnwys Llifogydd / Afonydd fel eitem i'w hystyried yn un o gyfarfodydd y dyfodol. Serch hynny, ni phennwyd dyddiad ar gyfer yr eitem hon.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar**

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

DYDDIAD: 20 Ionawr 2022

LLEOLIAD: Cyfarfod rhithiol

TEITL: Blaenraglen Waith Ddrafft 2021/22

PWRPAS YR ADRODDIAD: Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor

Y RHESWM PAM FOD

**CRAFFU WEDI GOFYN AM MAE BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR YN CAEL EI HAROLYGU A'I
Y WYBODAETH HON:** diweddarau ymhob cyfarfod

CEFNDIR:

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwyllo gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaiil beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwysrau a gwrthbwsau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymhell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisiâu, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisiâu a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

Dewis pynciau

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):

Adolygu a diweddarau'r Blaenraglen Waith bresennol.

Enw Cyswllt:	Lisa Evans
Dynodiad:	Swyddog Craffu a Safonau
Dyddiad yr Adroddiad:	12/1/2022
Acronymau:	BW- Blaenraglen Waith FWP- Forward Work Programme

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2021/22

Pwyllgor	Eitem (disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd
<i>Cymunedau Ffyniannus</i>		
26 Mai	Adroddiad Blynyddol ar Reoli Carbon	Lyndon Griffiths
15 Gorffennaf	Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Priffyrdd	Rhodri Llwyd
1 Hydref	Parthau Diogel	Rhodri Llwyd / Russell Hughes Pickering
1 Tachwedd	Cyflawni Sero-Net erbyn 2030 - bob chwe mis Teithio Llesol Adroddiad ar sefyllfa bresennol y rhaglen Gwaith Trin Carthffosiaeth	Lyndon Griffiths Rhodri Llwyd Lyndon Griffiths
8 Tachwedd	Parthau Diogel	Rhodri Llwyd / Russell Hughes Pickering
<u>2022</u> 20 Ionawr	Parcio ceir yn y trefi – edrych ar y sefyllfa yn ariannol, yn flynyddol, yn dymhorol, ac yn ôl lleoliad.	Gerwyn Jones

	<p>Diweddariad ar Clefyd coed ynn</p> <p>Casglu sbwriel</p> <p>Gwahoddiad i Dwr Cymru a CNC (materion cynllunio)</p> <p>Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr 2022</p>	<p>Phil Jones</p> <p>Gerwyn Jones</p> <p>Dwr Cymru a CNC</p> <p>Sarah Groves-Phillips</p>
<p>18 Ionawr</p> <p>Paratoi'r Gyllideb</p> <p>9:30am</p>	<p>Paratoi'r Gyllideb</p>	
<p>Cyfarfodydd y dyfodol</p>	<p>Afonydd a llifogydd</p> <p>Defnyddio Mannau Agored</p> <p>Strydlun (codwyd gan aelod pwyllgor Cydlynu – parcio ac arwyddion ar balmentydd/cyrbiau isel)</p>	